

# ECO'R WYDDFA

Rhif 184

TACHWEDD 1992

Pris 25c.

## DAWN DEULUOL



## DAWN Y DONIOL



Mae'r atodiad 'Papur y Cwm' sy'n cael ei ddosbarthu gyda'r rhifyn hwn o'r Eco yn hysbysu'r rhaglen gomedi


newydd 'Un Dyn Bach a Rôl' fydd yn ymddangos ar S4C yn ystod yr wythnosau nesaf. Awdur y gyres yw Dafydd Huws. Er ei fod bellach yn byw yng Nghaerdydd cafodd ei eni a'i fagu yn Llanberis. Gwelir ei enw yn bur aml ar y sgrin fel awdur rhai o benodau 'Pobl y Cwm'. Ef hefyd oedd awdur rhai o benodau 'Mwy Na Phapur Newydd' ac rhyw flwyddyn yn ôl fe ddarlledwyd ffilm o'i lyfr 'Dyddiadur Dyn Dwad', sef anturiaethau Goronwy Huws.

O ddiddordeb i ddarllenwyr yr Eco hefyd yw'r ffaith bod Meilyr Emrys o Fethel yn chwarae rhan Owain Llewyn y gyfres newydd. Disgybl yn Ysgol Brynrefail yw Meilyr ar hyn o bryd a dymunwn bob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

Bu tipyn o ddathliad teuluol yn dilyn Eisteddfod Llanrug y mis diwethaf. Bu'n draddodiad yn yr eisteddfod ers rhai blynedd oedd bellach i gadeirio'r llenor buddugol a gwobrwyo'r prif lenor ifanc drwy gyfrwng un seremoni. Eleni, ar ganiad y corn gwlad, gwelwyd achlysur go arbennig — tad a merch yn codi ar eu traed yng nghanol y gynulleidfa. Dafydd a Catrin Whiteside Thomas oedd y ddau lenor buddugol, ac fe'u croesawyd i'r llwyfan, a'u anrhydeddu gan Orsedd Beirdd Ysgol Brynrefail.

Nid dyma'r tro cyntaf i Dafydd ennill cadair Eisteddfod Llanrug, a braf yw gweld Catrin yn etifeddu rhywfaint o'r ddawn lenyddol. Cafodd y ddau gryn ganmoliaeth gan y Prifardd Selwyn Griffith yn ei feirniadaeth ac mae'n bleser cael cyhoeddi y ddwy stori fuddugol ar dudalennau'r rhifyn hwn o'r Eco. I goroni'r llwyddiant y teulu, Mrs Enid Whiteside Thomas, mam Dafydd, enillodd y gystadleuaeth i rai dros 60 oed ar y testun, 'Hen Feddyginiaethau'. Dawn deuluol yn wir.

## DAWN RHYFEDDOL



Un o'r digwyddiadau blynyddol yng Nghymru yw cyhoeddi fod un o gampweithiau E. Meirion Roberts, Hen Golwyn, yn cael eu gwerthu tuag at chwyddo Cronfa Eisteddfod yr Urdd neu'r Eisteddfod Genedlaethol. Bydd y gweithiau hynny yn aml ar ffurf mapiau a chofnodion hanesyddol y bröydd wedi eu gwau yn gelfydd i bob un.

Mae Mr Roberts erbyn hyn wedi llunio un o'i weithiau ar gyfer dathlu canmlwyddiant geni y Dr Saunders Lewis y flwyddyn nesaf. Comisiynwyd hwn gan Bwyllgor Sir Gaernarfon o'r Gronfa Goffa ac mae'n cynnwys dyfyniadau o waith Saunders Lewis yn ogystal â llun ohono ef a llun o hen ffermdy Penyberth.

Mae'r llythrennu mewn coch a du a'r gwaith addurniadol yn cynnwys glas a gwyrdd, melyn a brown. Mae'r cyfan wedi ei fframio hefyd ac o gael £25 yr un amdanant gobeithia'r pwyllgor fedru ychwanegu yn deilwng at y Gronfa Ganolog sydd angen tua £90,000 eto i gyrraedd y nod a osodwyd trwy Gymru gyfan. Bydd y Gronfa honno wedyn yn sail i roi ysgoloriaeth hyd at £14,000 i alluogi myfyriwr i fynd i astudio ar y Cyfandir.

gefnogaeth haeddiannol ac y gwelir miloedd yn gorymdeithio. Mae nifer sylweddol o fysiau eisoes wedi eu trefnu i fynd o'r gogledd a braf fyddai gweld cynrychiolaeth gref o fro'r Eco yn teithio i Gaerdydd. Fel y dywedodd Hywel Teifi Edwards yn ddiweddar — 'Gwaith i Genedl yw cadw iaith'.

## TYNGED YR IAITH

### RALI GENEDLAETHOL DROS DDEDDF IAITH GADARN CAERDYDD

**Dydd Sadwrn, Hydref 31ain, 1992**

**1 p.m.** Ymgynull yng Ngerddi Sophia i orymdeithio i'r Swyddfa Gymreig

**2 - 3 p.m.** Rali y tu allan i'r Swyddfa Gymreig

**SIARADWYR:**

**Yr Arglwydd GWILYM PRYS DAVIES**

**DAFYDD WIGLEY A.S.**

**RHODRI MORGAN A.S.**

**Dr. RICHARD LIVSEY**

**CYNOG DAFIS A.S. a HELEN PROSER**

**DEWCH YN EICH MILOEDD I DDANGOS EICH OCHR**

**GWAITH I GENEDL YW CADW IAITH**

Mae'r newyddion yng ngholofn dde'r dudalen hon yn ein hatgoffa nad oes ond blwyddyn hyd y byddwn yn dathlu canmlwyddiant geni Saunders Lewis. Mae'r penawd uchod yn ein atgoffa, gobeithio, fod llawer o'r brwydrau a frwydrodd ef a'i gyfoedion eto i'w hennill. Mae llawer yn darogan mai'r ymgyrch bresennol i sicrhau Deddf Iaith gadarn fydd un o'r rhai pwysicaf er parhâd yr iaith Gymraeg. Does dim amheuaeth fod y gefnogaeth i Ddeddf Iaith newydd yn cynyddu'n gyson, a'r gefnogaeth honno yn cael ei lleisio ar draws y sbectrwm gwleidyddol. Heb os, uchafbwynt yr ymgyrch hyd yn hyn fydd y Rali Genedlaethol sydd i'w chynnal yng Nghaerdydd ddydd Sadwrn nesaf, Hydref 31ain. Mae'r wybodaeth a gyhoeddir yma am y siaradwyr fydd yn annerch yn cadarnhau'r gefnogaeth eang sydd i'r ymgyrch. Mawr yw'r gobaith y caiff y rali y



# ECO'R WYDDFA

**RHIF 184  
TACHWEDD 1992**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth  
Cymdeithas Gelfyddydau  
Gogledd Cymru

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

### GOLYGYDDOL

**IWAN ROBERTS  
LLEIFIOR, LLANRUG  
(Ffôn: Caernarfon 5649)**

**JOHN PRITCHARD  
CILFYNYDD, LLANBERIS  
(Ffôn: Llanberis 872390)**

### GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.  
(670115)

### DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,  
Deiniolen. (Llanberis 870394)

### FFOTOGRAFFWYR

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,  
Llanrug. (Caernarfon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,  
Llanrug. (Caernarfon 77263)

### TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,  
Llanrug. (Caernarfon 5605)

Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stad Ty  
Hen, Waunfawr. (Waunfawr 599)

### TREFNYDD GWERTHIANT

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr  
Orsaf, Llanrug. (Caernarfon 5510)

### TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug. (Caernarfon 4839)

### TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon  
Bach, Llanrug. (Waunfawr 200)

### TREFNYDD PLYGU

Sioned Roberts (Waunfawr 570)

### GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw  
yn eich ardaloedd.

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran  
(Felinheli 670726)

**BRYNREFAIL:** Miss Lowri Prys

Roberts, Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Mrs Beryl Roberts,

Geralit, Erw Wen (Caernarfon 3536)

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen,

Bodafon, Ceunant (Waunfawr 799)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands,

Glanrafon (Llanberis 872275)

**DEINIOLLEN:** W. O. Williams,

6 Rhydfadog, Deiniolen

(Llanberis 871259)

**DINORWIG:** Glyn Tomos, Pen y Bwlch,

Dinorwig. (Llanberis 8705576)

**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion

Roberts, Becws Eryri (870491)

**LLANRUG:** Mrs Dyfi Jones, Tyddyn

Rhuddallt (Caernarfon 76733)

**NANT PERIS:** Mrs Ann Fleming,

Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans,

Sycharth (Llanberis 872407)

**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry,

Ael-y-Bryn (872276)

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts,

Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570)

### Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg  
**NOS IAU, TACHWEDD 26**

Deunydd i law'r  
golygyddion perthnasol  
**NOS LUN**

**TACHWEDD 16**

os gwelwch yn dda

## DYDDIADAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570)

| RHIFYN  | DYDDIAD<br>PLYGU | BLE?      | CYSYLLTU Â      | RHIF FFÔN        |
|---------|------------------|-----------|-----------------|------------------|
| RHAGFYR | TACHWEDD 26      | LLANBERIS | Mr GWILYM EVANS | Llanberis 872034 |

## Llythyr

### Y Rhai a Anghofiwyd

Allt Riwth

Llanrug

Annwyl Olygydd,

Mae ysgol newydd Penisa'rwaen yn  
ymddangos yn sefydliad digon  
buddiol ar gyfer gwasanaethu  
anghenion addysg fodern ac  
achlysuron cymdeithasol ynghlwm.

Ond yr oeddwn wedi gwaredu  
wrth ddarganfod yno sobrwydd o  
wall mewn chwaeth, diolchgarwch,  
parch, a hyd yn oed synnwyr  
cyffredin, pan sylwais bod cofeb  
rhyfel yr hogiau wedi ei gosod ar fur  
allanol, yn nannedd y ddrycin ac o  
fewn cyrraedd fandaliaid ac  
ysbriblwyd diben.

Ydy o'n gwestiwn afresymol i ofyn  
i'r cyfryw rai o athrylith wyr gan a  
ganiataodd y fath gysegr-ysbeiliad:  
a gollwyd aelodau o'u teulu hwy yn  
y gyflafan a warchododd iddynt y  
faint o gyflawni gweithred  
amharchus fel hyn tuag at goffhad  
tri brawd a chymydog a ranodd gyda  
mi oriau fy mhientyndod a'm glas  
lencyndod, cyn iddynt gael eu rhoi ar  
allor yn aberth i Mars.

Carwn i'r rhai hyn sylweddoli mai  
nid llais unig o'r anialwch yw fy un  
i sydd yn cael ei godi mewn gwrthni  
yn erbyn y fath sarhad, ac nid un  
hawdd ei ddistewi chwaith, nes y  
bydd y gofeb yma wedi ei dychwelyd  
i'w iawn le ar y muriau mewnol er  
parch a diogelwch, cyn i rai o  
ragorach fagwraeth ac addysg gael  
cyfle i dywallt gwawd ar y fath goll-  
ddiwylliant. Roeddwn i'n cario'r  
syniad mai amcan yr adeilad ei hun  
oedd dyrchafu y nwydd hwnnw, nid  
ei iselhaul.

Mae 'Rolls of Honour' i gyn-  
ddisgyblion ysgolion, bob amser  
mewn cymdeithas war — bob amser  
yn cael eu gosod o fewn yr adeilad.

Yn ffyddlon,

JOHN E. WILLIAMS

### Cymdeithas Wyddonol Gwynedd

**RHAGLEN 1992-93**

Tachwedd 3: Dr E. Sunderland,  
Prifysgol Bangor. *Rhai Agweddau ar  
Anthropoleg.*

Rhagfyr 1: Mr D. Ffriar, Menter  
Coedwigaeth Cymru. *Creu Gŵyl  
Gerddi Cymru.*

Ionawr 5, 1993: Dr H. Hughes,  
Caerdydd. *Geneteg.*

Chwefror 2: Mr D. Rhys Jones,  
Aberystwyth. *Ffisoleg Ecololeg, Radio  
Caesium ar Dir Mynyddig.*

Mawrth 2: Mr O. P. Jones,  
Llandwrog. *Wele Batant, Wili Betws.*

Mawrth 26: Noson Gymdeithasol.  
Cynhelir pob darlith yn Narlithfa'r  
Adran Amaethyddiaeth, Coleg y  
Brifysgol, Ffordd Deiniol, Bangor,  
am 7.30 o'r gloch. Ceir cyfle i  
ymaelodi â'r gymdeithas ym mhob  
cyfarfod.

### CYFLE ARALL

Ydyd chi'n cael trafferth cofio sut i  
sillafu rhai geiriau?

Ydyd chi'n teimlo nad ydyd yn  
gallu helpu eich plentyn efo gwaith  
cartref?

Ydyd chi'n casau llenwi  
ffurflenni?

Ydyd chi eisiau gwybod mwy am  
gyfrifiaduron?

Hwyrach y byddai gennych  
ddiddordeb yn CYFLE ARALL.  
Gwasanaeth yn rhad ac am ddim yw  
Cyfle Arall er mwyn rhoi siawns i  
oedolion wella eu hunain; boed  
hynny'n ddysgu darllen ac ysgrifennu  
neu ddysgu sut i ddefnyddio  
prosesydd geiriau. Cynhelir sesiynau  
mathemateg ac ysgrifennu creadigol  
yn ogystal â chysiau Wordpower a  
Numberpower sydd yn arwain at  
ennill tystysgrif City & Guilds.

Croesewir unrhyw un sydd ag  
angen help hefo llenwi ffurflenni neu  
sy'n astudio ar gyfer arholiad  
arbennig. Wrth gwrs mae'r gwaith yn  
cael ei wneud drwy gyfrwng y  
Gymraeg a'r Saesneg ac mae'r  
sesiynau yn cael eu cynnal yn ystod  
y ydd a gyda'r nos. Medrwyd ddod  
o hyd i ni yng Nghanolfan Ieuenctid  
a Chymuned, Penrallt Isaf,  
Caernarfon, neu ffoniwch (0286)  
78551. Mi fydd yna groeso arbennig

i chi alw i mewn unrhyw fore Llun  
rhwyng 10 a 12 o'r gloch am sgwrs ac  
i weld beth sydd gan y gwasanaeth  
i'w gynnig.

Hefyd, os oes unrhyw un ag  
awydd dod atom i helpu fel tiwtor  
gwirfoddol byddem yn falch o  
glywed gennych.

### Gwobrau Gwerth Chweil

Gyda *DanHaul*, y cylchgrawn natur,  
yn dathlu ei ben-blwydd cyntaf,  
mae'r cyhoeddwyd, Stiwdio Mei, yn  
lansio cystadleuaeth i ddenu rhagor  
o danysgrifwyr.

Cost pedwar rhifyn drwy'r post  
am flwyddyn yw £4. Bydd enwau  
pawb fydd yn cytuno i danysgrifio  
cyn Rhagfyr 1 yn mynd i het, a  
bydd y ddau gyntaf allan — un o'r  
de ac un o'r gogledd — yn cael  
gwobrau o Docyn Tymor i  
Amgueddfa Genedlaethol Cymru  
yng Nghaerdydd neu Docyn Teulu  
i Pili Palas, Ynys Môn. Rydym yn  
ddiolchgar i'r ddau sefydliad yma  
am eu rhoddion caredig. Bydd yr  
enillwyr, hefyd, yn derbyn  
tanygrifiad am ddim.

Dylid gyrru siec, neu archeb bost,  
am £4 i DanHaul, Penygroes,  
Gwynedd LL54 6NG.

Os nad ydyd eisoes wedi gweld  
copi o *DanHaul*, gyrrwch atom ac  
fe gewch gopi am ddim!

## AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



## BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

## J.R. PRITCHARD BONTNEWYDD

Ffôn:



Caernarfon 3507

Gwneuthurwyr

Ffenestri a Drysau

Ffoniwch am fanylion

a phrisiau cystadleuol





## Diolch, Dathlu a Diddimdra gan Deio

**Daeth ac aeth yw hanes yr Ŵyl Ddiolchgarwch unwaith eto — yr Ŵyl feunyddiol fwy na'r un Ŵyl Gristnogol Anghydfurfiol arall sy'n codi'r un hen grybwyll am nad yw pethau ddim fel y buo nhw 'stalwm.**

Lle byddai'r capeli'n llawn at yr ymylon, yn ôl pob sôn, deirgwaith ar y Llun ar ôl y trydydd Sul o'r mis (Hydref) amheuthun bellach yw cael unrhyw gyfarfod o gwbl i Ddiolch aar y dydd Llun neilltuol hwnnw. Mewn sawl ardal, symudwyd i'r trydydd Sul ei hun ac, yn wir, bellach gwelir mwy a mwy o wasanaethau Diolchgarwch yn gynt na hynny hyd yn oed gan fod gwyliau'r Diolchgarwch yn gyfle olaf y tymor i fynd i ymweld â pherthnasau pell neu ryw ranbarth neilltuol o Brydain. Ie, gwyliau'n brysur fynd yn bwysicach na'r Ŵyl.

Ond dewch yn ôl ar yr Ŵyl ei hun. Pwy bellach sy'n troi fyny i wasanaeth i ddiolch? A fuoch chi a mi eleni? Llond dwrn hwyrach yn cymryd rhan mewn cwrdd gweddi a nifer mwy ohonom yn cuddio tu ôl i'n plant a ieuencid yr ardal wrth iddynt hwy ddiolch yn llawn asbri am yr hyn a gafwyd. Y rhieni a'u cyfeillion yn bodloni ar gannol eu hepil ffyddlon am gymryd rhan yng ngwasanaeth y plant heb fawr ystyried am yr angen i gymryd rhan ein hunain.

Yn ôl pob sôn, rhyw 200 oed yn unig yw'r arferiad o gario tatws a rwdins a phob math o lysiau a ffrwythau eraill i wasanaeth o ddiolch. Beth ddigwyddai cyn hynny tybe? Yn fwy sylfaenol byth, beth a ddigwydd ar ôl eleni tybed? Wele, mwy a mwy o elusennau'n begera trwy'r post bob wythnos. Eithriad yw i ddeuddydd fynd heibio nad oes rhyw achos da neu'i gilydd yn gofyn am gyfraniad ariannol neu a wnewch

chwi drefnu gweithgaredd yn eich cylch neu gasgliad o ddrws i ddrws neu beth bynnag. Yn wir, o gadw'r ohebiaeth a dderbyniaid tros y saith wythnos ddiwethaf yn gofyn am gymorth i gymdeithasau elusennol mae gennyf bentwr dros 3 centimetr o drwch mewn papur a diwyg sy'n tynnu sylw. Fodd bynnag, yn ôl yr hen air nid yw gormod o ddim yn dda a chaiff rhywun ar ei waethaf deimlad weithiau fel anwybyddu'r cyfan.

Ond, cynorthwyo 'rydym onidê? Llenwir potel gyda mân arian mewn siop a swyddfa a thafarn yn hynod gyflym ac ymatebwr yn aml a chyson i apeliadau megis un y sganiwr i Ysbyty Gwynedd beth amser yn ôl. Hawdd fyddai gofyn pam mynd i gapel i ddiolch a chymaint o anghenion o'n cwrddpas. Ond wedyn, hawdd yw anghofio'r hyn sydd gennym ag y bu inni'u derbyn i fod mewn sefyllfa i gyfrannu.

Un nodyn bach cyn cau pen y mwdwl. Bydd noson Guto Ffowc cyn bo hir ac anogaf bawb i fod yn ofalus wrth ddatlu gweithred yr enwogyn hwnnw ac, wrth feddwl am y noson honno a bod mewn sefyllfa o gael syrffed diweddar o gynadleddau'r pleidiau gwleidyddol yn addo hyn a bygwth llall, hwyrach fod 'rhen Guo yn wir gryn dipyn o flynyddoedd o flaen ei oes. Tybed ai cerflun o'r Senedd a ddylid ei weld yng nghanol y goelcerth y dyddiau hyn ac nid gweld bai ar Ffowc druan a oedd wedi'r cwbl ond yn ceisio gwell byd iddo'i hun a'i dylwyth? Cewch chwi ateb trosoc'h eich hun!

## CYMORTH TRWY YMCHWIL

Mae'r elusen 'Cymorth Trwy Ymchwil' (Action Research) yn hyrwyddo gwaith ymchwil yn benodol i glefydau sy'n blino plant. Y mae pwyllgor lleol bellach wedi ei sefydlu yn yr ardal er mwyn cefnogi gwaith yr elusen arbennig yma. Ffurfiwyd Pwyllgor 'Cymorth Trwy Ymchwil' Caernarfon ym mis Medi, ac mae'r gangen newydd hon, dan gadeiryddiaeth Mr Tony Pepper, eisoes wedi cychwyn ei gwaith. Lansiwyd y gwaith yn swyddogol mewn Parti Gwin a Chaws a gynhaliwyd yng Ngwesty Llyn Padarn, Llanberis, ar Hydref 26. Bwriedir cynnal gwahanol weithgareddau yn ystod y misoedd sy'n dod. Os am ragor o fanylion ynglŷn â'r gwaith yn lleol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gangen, Mr Dewi V. Parry, 7 Stryd yr Eglwys, Caernarfon (Ffôn: Caernarfon 77555).

### YMA O HYD!

Yn rhifyn Ebrill eleni o'r Eco adroddwyd bod hen Westy'r Castell yn Llanberis i gael ei ddymchwil. Erbyn hyn fodd bynnag y mae'r datblygwyr, Cwmni Watkin Jones a'i Fab, wedi newid eu cynlluniau. Yn hytrach na chwalu'r adeilad penderfynodd y cwmni geisio caniatâd i'w droi yn siopau a fflatiau. Mae'r gwaith o atgyweirio ac addasu'r adeilad eisoes wedi cychwyn, a gobaith y cwmni yw y bydd y siopau'n barod erbyn y gwanwyn. Pan gwblheir y gwaith bydd un o hen adeiladau Llanberis wedi ei ddiogelu, a safle a fu'n ddolur i'r llygad ers blynnyddoedd wedi ei gweddnewid.

## COFIWCH

DYDDIADAU'R DDAU RIFYN  
NESAF O'R ECO:

Rhifyn RHAGFYR  
O'r wasg Tachwedd 26ain  
Deunydd i law'r golygyddion  
TACHWEDD 16eg

Rhifyn NADOLIG/IONAWR  
O'r wasg Rhagfyr 17eg  
Deunydd i law'r golygyddion  
RHAGFYR 7fed

## SASIWN Y CHWIORYDD

Cynhaliwyd Sasiwn Chwiorydd Henaduriaeth Arfon yng nghapel Cefnywaun, Deiniolen, ddydd Mercher, Medi 30. Llywyddwyd cyfarfod y prynhawn gan Mrs Mair Roberts, Llanwnda. Arweinwyd y defosion gan blant Ysgol Gwaun Gynfi yng ngofal Mr Gwynfryn Jones a Mrs Helen Jones. Cafwyd anerchiad treiddgar gan y Parchg Robert O. Roberts, Morfa Nefyn. Llywyddwyd cyfarfod yr hwyr gan Mrs Falmai Pritchard, Llanberis. Mrs Rhiannon Evans, Bethesda, oedd yn arwain y defosiwn, a thraddodwyd anerchiad grymus gan Mrs Mairlyn Lewis, Abergele. Cafwyd eitemau hefyd gan Barti Lleisiau Lliwedd, Llanberis, dan arweiniad Mrs Mattie Hughes a'u cyfeilydd Mr Gareth Jones. Mrs Margaret Griffith, Deiniolen, oedd yr organyddes. Paratowyd lluniaeth gan aelodau Cefnywaun ac Ebeneser. Diolch i bawb yn Neiniolen a weithiodd mor galed i sicrhau bod y trefniadau mor effeithiol.

## CABS LLANRUG



**C'fon 5951**

Prisiau cystadleuol  
Gwaith contract  
pell ac agos

## GERAINT OWEN

Gosodwr  
carpedi a phob  
math o lorïau

**Cil-y-Mynydd  
WAUNFAWR**

Ffôn:  
Waunfawr 552

## Aled Jones

Peiriannydd  
Gwres Canolog  
a Plymio

**4 Bryn Eglwys  
PENISARWAUN**

Ffôn Llanberis  
871047



**Llanberis 870203**

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

## Wavell Roberts

**CIGYDD**  
LONDON HOUSE  
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

**PEN CIGYDD Y FRO**

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus  
Selsig cartref, cigoedd parod  
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist  
MYNNWCH Y GORAU  
DEWCH ATOM NI!

## E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU  
CEIR AR GYFER PRIODASAU  
GWASANAETH TACSI



# O MARI . . .

'Da ni gyd yn adnabod rhyw Fari . . . Mari Fawr Trelech, Mari Gwilym, y ddiweddar Mari Lewis . . . ond faint sy'n sylweddoli fod yna le o'r enw Mari. Gweriniaeth yn wir, efo 700,000 o bobl, oddeutu 700 milltir i'r dwyrain o Moscow, yn Rwsia. Gynt yn yr Undeb Sofietaidd ond bellach y C.I.S. (sy'n dal i olygu Co-operative Insurance Society i'r rhan fwyaf ohonom!); Cymanwlad y Gwladwriaethau Annibynnol i roi'r enw Cymraeg.

Ond beth sydd â wnelo hyn â bro Eco'r Wyddfa — beth yw'r ots i ni sy' ddim yn cyrraedd Bangor a Chaernarfon heb sôn am gyffiniau'r Iwral?

Mae'r ateb yn Llanberis, yng Ngwesty Erw Fair, lle treuliodd naw o reolwyr busnes o Mari bythefnos yn dysgu am ddirgelion 'Rheoli'r Economi mewn Marchnad Rydd'. (Gallai Norman Lamont fod wedi elwa o'r un cwrs mae'n siŵr!)

Pan 'dach chi'n eistedd ym Mari yn myfyrio ynghylch rhinweddau cyfalafiaeth a'r farchnad rydd nid Llanberis ydi'r lle cyntaf a ddaw i'n cof fel arfer. Gwelodd y Californiaid rinweddau'r dyffryn wrth leoli pencadlys Euro-DPC ond cyswllt personol Dafydd Wigley AS, a arweiniodd at y cyswllt hwnnw.

Stori debyg a barodd i wŷr busnes Mari landio yn Erw Fair, Llanberis. Trefnwyd y cwrs hyfforddi gan asiantaeth Rhosyn o Gaernarfon. Medd eu llefarydd, Ann Thirsk: 'Bu nifer ohonom yn meithrin cysylltiadau â Gweriniaeth Mari. Y

llynedd aeth criw bychan drosodd i'w prifddinas hwy, Yoshkar Ola. Heb sôn am y cyfeillgarwch mae manteision economaidd yn deillio. Mae cwmni o Landegai'n gobeithio gwerthu cyfrifiaduron i Yoshkar Ola ac mae'r cwrs hwn wedi dod â busnes i un o westai Llanberis yn ystod cyfnod tawel yn y flwyddyn.'

'Rheolwyr cwmnïau diwydiannol ydynt gan mwyaf, ynghyd â phedwar banciwr. Yn ogystal â seminarau a darlithoedd bu'r criw'n ymweld â mannau fel Starcoast World, Pwllheli; MFI; Roberts, Felinheli a Swyddfa Ranbarthol Banc y National Westminster.

'Maent wedi mwynhau aros yn Llanberis yn arw ac roedd Bob ac Annie Kane o westy Erw Fair yn groesawgar a gwyh.'



Ann Thirsk o gwmni Rhosyn gyda Dmitry Kuzmin, a Bob ac Ann Kane, Gwesty Erw Fair.

Gyda'r naw gŵr busnes am dridiau cyntaf yr ymweliad yr oedd

prif wleidydd Gweriniaeth Mari, Mr Yuri Minakov, Cadeirydd y Brif Senedd (Supreme Soviet), ynghyd â Mr Yevgenny Sergeyev, prif weithredwr dinas Yoshkar Ola. Buont yn ymweld â Chyngor Arfon a Chyngor Gwynedd i ddysgu am sustem lywodraeth leol yr ardal. Treuliasant awr yn edrych o amgylch Ysgol Brynrefail yng nghwmni'r prifathro, John Grisdale. Medd John Grisdale: 'Buont yn rhannu bathodynau Yoshkar Ola i ddosbarth blwyddyn gyntaf oedd yn cael gwers Saesneg gan Mrs Carys Jones. Gwelsant y gampfa, y labordai, yr ystafell gyfrifiaduron ac adnoddau newydd, y gegin gwyddor tŷ a'r 'stafell CDT. Roeddent yn impressed efo'r adnoddau modern sydd yma.'



Tri o'r gwŷr busnes o weriniaeth Mari.

## GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL  
TEGANAU, CARDIAU  
MELYSION  
ANRHEGION



Bara Ffres  
Teisennau  
Priodas, Bedydd  
Pen-blwydd ac ati  
Peis, Rholiau Sosej  
Pasteiod, Teisennau Hufen  
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

## BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

+

J.M.  
JONES  
A'I FEIBION  
GWAITH  
CERRIG  
BEDDAU

## Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith  
llaw traddodiadol,  
Cerrig o bob  
math ar gael.

Ffôn:  
Caernarfon 2898  
(dydd)  
Caernarfon 76285  
(nos)

## Rhoi Ceunant ar fap diwylliannol Ewrop?



Y grŵp One Style MDV, sy'n magu perthynas agos â phentref Ceunant.

Bu y grŵp Regge mwyaf blaenllaw yn Ewrop ar y funud, grŵp o'r enw One Style MDV, yn aros yn ddiweddar efo Michael Thomas, Is-y-bryn, Tai Trefor a Bryn a Sharon, Gwynfryn, Ceunant. Roeddynt ar daith o gwmpas Cymru ac hefyd yn recordio eu hail record hir yn Stiwdio Sain yn Llandwrog. Yn ôl pob tebyg mae holl weithgareddau'r grŵp yn cael eu trefnu o'r Ceunant ar hyn o bryd. Bydd y record newydd, sy'n cynnwys cân Gymraeg, 'System ar y Diawl', yn cael ei rhyddhau ledled Ewrop, America ac India'r Gorllewin.

Ceir cyfle i weld y grŵp ar Dachwedd 20fed pan fyddant yn cyfrannu at raglen Plant Mewn Angen. Byddant hefyd yn perfformio yn Ysgol Syr Hugh Owen y bore hwnnw. Mae'r grŵp wedi syrthio mewn cariad â diwylliant yr iaith Gymraeg a'r Cymry ac adlewyrchir hyn yn nifer o'u caneuon, a phwy a

wŷr na fydd Ceunant yn ymddangos ar fap diwylliannol Ewrop yn ystod y blynnyddoedd nesaf.

Mae'r grŵp hefyd wedi cyfrannu at nifer o weithgareddau lleol, e.e., codi arian at Gisda (pobl digartref yn Arfon), at Antur Waunfawr yn ogystal â chyfrannu at grŵp Gwynedd sy'n cefnogi canolbarth America.

## CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen,  
Bodafon (Waunfawr 799)

Anfonwn ein cofion at Mrs Owen Jones, Y Garth, sydd wedi dod adref o'r ysbyty wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Hefyd mae Mrs D. Pritchard, Glasfryn, bellach wedi cael dod adref o'r ysbyty. Dymunwn lwyr wellhad i'r ddwy.



## TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn. Ffôn: 872276

**Gwella:** Da yw deall bod Mathew Bent, Maesgerddi, wedi dychwelyd adref o'r ysbyty ar ôl ei ddamwain. Dymunwn wellhad buan iddo.

**Eisteddfod:** Bu llawer o blant y pentref yn llwyddiannus yn Eisteddfod Pentref Llanrug. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt.

**Gwasanaeth Diolchgarwch:** Cymerodd plant Ysgol Sul Tan-y-coed ran yn y gwasanaeth Diolchgarwch ar 11 Tachwedd. Yn cymryd rhan roedd Sophie Angharad Roberts, Natalie Blanchard, Ceri a Dafydd Williams, Robin a Dafydd Thomas, Sion, Iwan a Bethan Pritchard a Rheon Parry. Hefyd cymerodd yr athrawon ran, sef Miss M. Humphreys, Mrs Sharon Blanchard a

mrs N. Ph. Roberts. Cafwyd yr anerchiad gan y gweinidog, Mr John Morris, a'r organyddes oedd Mrs Olga Roberts.

**Croeso adref** i Ffion J. Williams, Fferm Minffordd, ar ôl treulio amser yn yr Iseldiroedd a phob hwyl iddi ar ei thrip nesaf.

**Colled:** Bu farw Mrs M. Williams, Bryn Beuno, ar 27 Medi. Bu'r gwasanaeth ar 30 Medi yng Nghapel Tan-y-coed, ble y bu yn aelod am flynyddoedd lawer. Yn arwain y gwasanaeth yr oedd y Parch. J. Morris ac fe roddwyd y deyrnged gan y Parch. Trefor Jones. Claddwyd Mrs Williams ym Mynwent Nant Peris. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

## O SIAMBAR SELWYN

**Rydwi newydd fod yn Ysgol Tan-y-coed am y tro olaf. Er fy mod wedi cartrefu ym Mhenisa'rwaun ers peth amser bellach, fu gen i 'rioed gysylltiad 'addysgol' megis â'r ysgol.**

**Yn ysgod y chwe blynedd diwethaf 'ma rydwi wedi cael sawl cyfle i ymweld â'r ysgol i sgwrsio hefo'r plant, a phleser fu hynny bob amser.**

Ond mae gen i un atgof arbennig iawn am Ysgol Tan-y-coed. Yma y bu i mi fentro beirniadu adrodd am y tro cynta 'rioed. Y diweddar Gynghorydd Humphrey Williams a'm perswadiodd i (yn wir, a'm gorfododd i) ymgymryd â'r gwaith.

Cofiaf yn dda y noson. Noson loergan serenog a minnau yn cychwyn yn hynod o nerfus ar gefn fy meic o Fethel. Do, bu bron i mi a throi yn ôl ger Pont Charlie. Ond ymlaen yr euthum a chario allan fy nyletswyddau, gan wneud cam a sawl talent ifanc reit siŵr. Cychwyn cyfnod hir a difyr fu'r noson honno.

Roedd hynny 331 o 'steddfodau yn ôl — ia a sawl blwyddyn yn ôl bellach hefyd, gwaetha'r modd.

Erbyn hyn mae plant Penisa'rwaun ym moethusrwydd eu hysgol newydd a gallent gyhoeddi'n llon:

O Dan Coed wedi'r oedi  
Yma'n awr yr ydym ni,  
Yn llu o blant bach llon  
Ar y tir ger Bryntirion.

\* \* \*

Mi fûm i mewn ysgol arall cwblwahanol i Ysgol Penisa'rwaun yn ddiweddar 'ma. Ysgol oedd hon

mewn pentre gwledig yng nghanol Ynys y Dominican Republic. 'Roedd y plant yn dwt ac yn lân, gwên ar eu hwynebau a gwisg ysgol las a gwyn amdanynt.

Pan es i mewn i'r adeilad synnais nad oedd yno unrhyw lun na siart ar yr un o'r waliau. Yr unig gyfarpar yno oedd sialc a bwrdd du. Tua 40 o fyrdau a chadeiriau mewn dosbarth — dim desgiau. Tua 40 yw rhif arferol y dosbarthiadau yno. Dau sesiwn o ddysgu — un o tua wyth y bore hyd hanner dydd, a'r ail sesiwn o un tan bump. Wyth awr o ddysgu bob diwrnod i'r athro/athrawes.

O ydyn, 'ma nhw cael gwyliau — dau fis mewn blwyddyn. Wrth gwrs 'ma nhw'n cael cyflog hefyd — £65 y mis.

Do, mi wnes innau fy siâr o gwyno fel pob athro, ond ar ôl yr hyn a welais yn un o wledydd y trydydd byd yn ddiweddar rhaid i mi ddweud am llaw ar fy nghalon — **gwyn eich byd blant Penisa'rwaun a phlant Cymru — a gwyn fyd eich athrawon hefyd.** Byddai rhain yn gwerthfawrogi unrhyw fath o Gyricilwm Cenedlaethol.

Roeddwn i wedi mynd a phaced

## TARO YMLAEN?



Pwy yw'r rhain? Gweler y stori ar y dudalen gefn.

o bensiliau (deg ohonynt) fel anrheg i'r ysgol a phan gyflwynais nhw i'r brifathrawes roedd hi mor ddiolchgar a phetai hi wedi derbyn archeb blwyddyn.

Ymhen pythefnos, os byw ac iach, mi fydda i'n cael cyfle i ymweld â rhai o ysgolion y Gambia yn Affrica.

Ys gwn i a fyddai ysgolion bro'r Eco yn fodlon rhoi un paced o bensiliau, neu firo, neu ychydig o lyfrau 'sgrifennu i mi fynd a nhw fel anrhegion i ysgolion y Gambia?

Cofiwch fod plant ygwledydd yma yn gorfod gofalu am yr holl bethau hyn. Os na fedar eu rhieni eu fforddio — 'does 'na ddim addysg i'r plant. Yn wir eu cyfrifoldeb nhw ydy sicrhau cadair a bwrdd mewn nifer o'r ysgolion.

Os carai unrhyw ysgol gyflwyno anrheg fechan (ysgafn) rhowch

ganiad i mi — Llanberis 870095 — ac fe drefnais i alw amdanynt cyn 13 Tachwedd.

Mae ysgol newydd Penisa'rwaun eisoes wedi addo helpu. Dim compiwters, os gwelwch yn dda, byddai rheiny braidd yn rhy drwm.

Coch, gwyn a glas yw lliwiau baner y Dominican, ond am resymau cwblwahanol i liwiau Jac yr Undeb. Y coch am y gwaed a gollwyd dros y canrifoedd, y glas am y môr sy'n amgylchynu'r ynys, a'r lliw gwyn am heddwch a thangnefedd.

Y geiriau a glywir ar enau'r trigolion dim ots beth a ofynnir iddynt, yw, 'No problem!'

Tydi'n braf ar rai sy'n gallu dweud 'no problem', gyda gwên ar eu hwynebau mewn gwlad sy'n llawn o dlodi a phroblemau cymdeithasol. Ia. Gwyn ein byd.

**Am Wasanaeth  
Fframio Lluniau  
Tystysgrifau  
Tapestri**

**am brisiau rhesymol  
ELWYN  
PRITCHARD**

**Parc Padarn, Llanberis**

Ar agor Llun — Gwener  
10.00 — 3.30

I gysylltu tu allan i'r oriau  
hyn ffoniwch

**Llanberis 870922  
neu Bangor 351427**

**MODURDY  
PLAS  
BACH  
CAEATHRO**

**Ffôn: Caernarfon 2072**

**Gwerthu, Trwsio**

**Trin Cyrff**

**H.P. ar gael**

**W.J. GRIFFITH**

**PLYMAR A GOSODWR  
GWRES CANOLOG  
PANT TIRION, LLANRUG  
Ffôn: Caernarfon 673248**

**Gosodwyr  
Nwy  
Cofrestedig  
Corgi**



**Aelod o'r  
Association of  
Plumbing and  
Mechanical  
Services  
Contractors**

*Dim un dasg rhy fychan  
Dim un dasg rhy fawr*

**I drin a thrwsio  
pob math o  
beiriannau gwnïo  
MENAI SEWING  
MACHINE CENTRE  
40 Stryd Fawr  
PORTHAETHWY  
Ffôn: (93) 714043  
neu  
Caernarfon 4520  
edau, nodwyddau  
ac ati mewn stoc**

**Gwesty  
Dolbadarn  
LLANBERIS Ffôn: 870277**



**Am groeso cartrefol Cymreig bob amser  
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff**



## LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

**Ysgol Dolbadarn:** Mae hanner cynta'r tymor wedi gwibio heibio a phawb, gan gynnwys y plant newydd, wedi hen setlo yn yr Ysgol erbyn hyn. Croesawyd y rhieni i'r dosbarthiadau ar Hydref 13 i drafod datblygiad eu plant gyda'r athrawon.

Bu plant dosbarth 1 a 4 yn nofio yng Nghanolfan Hamdden Arfon ar bum pwn Gwener yn ystod hanner cynta'r tymor.

Cynhaliodd plant adran y babanod Wasanaeth Diolchgarwch yn yr Ysgol ddydd lau, Hydref 15. Cafodd rhieni'r plant ymuno yn y gwasanaeth, a gwnaeth y plant i gyd eu rhan yn ardderchog. Gwnaed casgliad yn y gwasanaeth tuag at Apêl Somalia yr Ysgol. Yr oedd y plant wedi bod yn cyfrannu tuag at yr apêl hon yn ystod yr wythnos cyn hanner tymor.

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y rhieni a'r llywodraethwyr yn yr Ysgol am 6.30 p.m., nos Fawrth, Tachwedd 3, pan gyflwynir adroddiad blynnyddol y corff llywodraethol i'r rhieni. Byddai'n dda cael cwmni cymaint ag sy'n bosibl o'r rhieni yn y cyfarfod.

**Pêl-droed:** Dechreuwyd cynnal sesiynau pêl-droed i blant dan 10 oed ar Ddôl y Goeden ar fore Sadwrn. Mae'r sesiynau yng ngofal Gwilym Evans. Y gobaith yw y gellir ffurfio tîm dan 10 oed i blant y pentref. Cynhelir y sesiynau rhwng 10 o'r gloch ac 11 o'r gloch ar fore Sadwrn (os bydd y tywydd yn sych). Cysyllter â Gwilym Evans, Tŷ Crwn (ffôn 872034) am ragor o wybodaeth. Diolch am roi cychwyn i'r fenter, Gwilym.

**Cymdeithas Eglwys St Peris a St Padarn:** Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn festri'r Eglwys, nos lau, Hydref 1, dan lywyddiaeth Mrs Anne Parry-Jones. Rhoddwyd croeso cynnes i'r gŵr gwadd, Mr Ken Jones, a chafwyd sgwrs afaelgar ganddo yn egluro peth o hanes ei waeledd a'r modd y mae yn gwella ar ôl cael y trawsblaniad. Rhoddwyd y te a'r anrheg misol gan Mrs Beryl Owen a Mrs Moreen Lennon, a ddechreuodd y cyfarfod gyda gweddi. Enillwyd yr anrheg gan Miss Joyce Foulkes. Diolchwyd yn gynnes iddynt ac i Ken gan Mrs L. C. Pugh.

**Ysgol Feithrin:** Cynhelir Bingo yng Nghlwb y Lleng Brydeinig ar nos Wener, Rhagfyr 4. Erfyniwn am gefnogaeth y mamau. **Raffi:** Ar gae

y Carnifal tynnwyd raffl tuag at yr Ysgol Feithrin a dyma'r canlyniad — dol: Meirwen Baylis; ffrwythau: Val Felinheli; gwin: J. M. Jones, Maes Padarn. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a'n cefnogodd.

**Cyfeillach Jerwsalem:** Fe agorwyd cyfarfodydd y Gyfeillach o dan arweiniad y gweinidog, y Parch. Gwynfor Williams, prynhawn dydd Mercher, 7 Hydref, gyda sgwrs ddarluniadol gan y gweinidog. Fe gafwyd trafodaeth fywiog gyda phaned o de wedi'r sgwrs. Fe gynhelir y Gyfeillach nesaf ar brynawn dydd Mawrth, 3 Tachwedd.

**Capel Coch:** Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch ddydd Sul, Hydref 18. Cafwyd cyfarfod gweddi yn y bore a phregethwyd yn oedfa'r hwyr gan y Parchg O. J. Pritchard, Llanfairfechan. Cymerodd y canlynol ran yn y gwasanaeth plant a gynhaliwyd yn y prynhawn: Chris, Gareth, Marc, Bethan, Dafyd Siôn, Rhys, Owain, Gethin Siôn, Mathew, Iwan Jones, Ceri, Elin, Lliffon, Iwan Morris, Carys, Michelle, Rhiannon, Gruffudd, Gethin Ifan, Dafydd Evans, Daniel, Laure, Ian.

Y Parchg Gwynfor Williams fydd y gŵr gwadd yng Nghyfarfod Merched Capel Coch a Rehoboth a gynhelir yn festri Capel Coch am 2 o'r gloch, ddydd lau, Tachwedd 5.

**Nant Padarn:** Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch y plant fore Sul, Hydref 18. Nia Jones oedd yn cyflwyno'r eitemau, a chymerodd y canlynol ran yn y gwasanaeth: Gwen, Idwal, Ifan, Dafydd, Katie, Claire, Manon, Dylan, Gethin, Sioned a Carwyn. Mr Gwynfor Roberts oedd yr organydd.

**Cyngherddau:** Dewch i Ganolfan Ynni Cymru yn Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis i fwynhau'r cyngherddau canlynol.

Dydd Sul, Tachwedd 22  
HOGIA'R WYDDFA  
Cyngerdd Nadoligaidd ei nawws  
Dydd Sul, Tachwedd 29  
CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS

Bydd y cyngherddau yn dechrau am 1.45 p.m. ac fe fydd mynediad am ddim i'r cyngherddau gyda thâl mynediad arferol i weddill yr adeilad a Gorsaf Drydan Dinorwig.



Llun Sioned a Colin, gan Islwyn Jones, Llanrug.

**Priodas:** Ar 26 Medi yng Nghapel Coch, Llanberis, priodwyd Sioned Wyn, merch hynaf Eifion a Gwyneth Roberts, Tŷ Eryri, Stryd Fawr, Llanberis, â Colin, mab Ray a Grace Hilton, Lerpwl. Mae'r ddau yn nysio yn Lerpwl a byddant yn ymgartrefu yn Bootle.

**Diolchiadau:**

Dymuna Colin a Sioned Hilton ddiolch o galon i'r Parch. John Pritchard a swyddogion Capel Coch, eu teulu, holl ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, cardiau a'r caredigrwydd a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Dymuna Nesta a Tommy a'r teulu, 9 Llainwen, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli mam a nain a hen nain annwyl. Hefyd am yr holl gardiau a rhoddion tuag at Ward Gwyrfa Bryn Seiont.

**Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fis Hydref — £35:** Catrin Pepper, England Rd, Caernarfon (17); £25: N. Carverth, Henryd Olgra Ter., Llanberis (169); £15: C. Sage, 13 Newton St., Llanberis (43); £10: M. Ll. Price, 39 Stryd Fawr, Llanberis (36); £5: J. Pike, 2 Bryn Hyfryd, Llanberis (37).

Heliwch eich traed  
am fargen i  
**SIOP  
ESGIDIAU  
GLENS**  
Stryd Fawr  
**LLANBERIS**  
Ffôn: 871470



**ROYAL  
VICTORIA  
HOTEL**

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da  
★ Cwmni da



**Bistro**  
43-45  
Stryd Fawr  
**LLANBERIS**  
Ffôn 871278



CURIAD CALON CYMRU




CURIAD CALON CYMRU

Trefniadau Blodau Sych  
a Ffres yn ôl eich gofyn  
Alwyn a Sarah Jones

**RACCA  
PENISARWAUN**

- ★ Danfon blodau i ysbytai a chartrefi henoed
- ★ Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau
- ★ Blodau ar gyfer angladdau
- ★ Stoc o flodau ffres



Galwch neu ffoniwch  
**870605**  
am fanylion



# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

## Llongyfarchiadau

**Dathlu Pen-blwydd:** Yn ystod mis Hydref bu Diane Davies, 18 Tref Eilian; Claire Pitman, 11 Ael-y-bryn a Mathew Minter, Tan-y-bryn, yn dathlu eu pen-blwydd yn 18 oed. Dathlodd Helen Wyn Hughes, Stad Tref Eilian a Peter Roscoe, Tŷ Ni, eu pen-blwydd yn un ar hugain oed. Llongyfarchiadau i chwi a phob dymuniad da i'r dyfodol. Anfonwn ein cofion cynhesaf a phob dymuniad da at Mrs M. Jones, Pant, a fu'n dathlu cyrraedd ei 90 oed.

**Genedigaeth:** Llongyfarchiadau i Mr a Mrs G. Thomas, Tŷ'r Heddlu, ar enedigaeth merch fach, Elin Mair, chwaer fach i Owain. Dymuna M. Jones, Tŷ'n Lôn, Bodorgan bob lwc i'r teulu bach.

**Priodas:** Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Karen Turner, Collwyn, ar ei phriodas â Dewi Morris o Ceunant. Maent wedi ymgartrefu yn Llys Ifor.

**Priodas Rhuddem:** Bu Mr a Mrs R. Hefin Jones, Glyn Afon, yn dathlu eu Priodas Rhuddem yn ddiweddar. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chwi i'r dyfodol.

**Yn yr Ysbyty:** Anfonwn ein cofion a dymunwn wellhad buan i Mrs M. Lloyd Jones, Bryn Tawel, sydd yn Ysbyty Eryri; ac i Mr Tom Tomos, Tŷ'n Llain sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

**Adref o'r Ysbyty:** Croeso adref o'r ysbyty i Mrs Clough, Ynysoedd; Mrs Mary Davies, Bryn Eithin; Mrs Spark, Tremnant; a Mr J. Cotton, Grug-y-mynydd. Da deall eich bod yn gwella.

**Profedigaeth:** Cydymdeimlwn â Mrs J. Elwyn Roberts, Glaslyn, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd; — â Mrs Troughton a'r teulu, Pant Gwyn, yn eu profedigeth o golli ei phriod; — â Glenda, Kathleen a Gwyneth, yn eu profedigeth o golli eu tad, Mr Glyn Williams, Plas Glyn Afon.

**Yr Urdd:** Nos Fercher, Medi 23, daeth Mr Alan Bevan o'r heddlu i iard yr Ysgol i ddangos pwysigrwydd beicio diogel. Cafodd y plant i gyd brawf ganddo ac mi fydd yn cyflwyno'r tystysgrifau iddynt, ar ôl hanner tymor.

Nid eistedd yn llonydd oeddynt yr wythnos ganlynol chwaith. Cafodd y merched rownderi gyda Christine a Carys yn y neuadd fawr, tra bu'r bechgyn yn chwarae pêl-droed dan ofal Robert Williams.

Pe bai un ohonynt yn brifo wrth chwarae mi fyddai ganddyn nhw syniad da beth i'w wneud ar ôl gwrandao ar Dr Roberts ar Hydref 14. Fe ddaeth i ddangos sut i helpu un o'u ffrindiau pe bai damwain yn digwydd a dim oedolyn o gwmpas. Mae plant yr Urdd yn bencampwyr erbyn hyn ar sut i wisgo bandej ar droed, coes a braich!

Ar Hydref 28ain byddwn yn gwneud yr hen Guto Ffowc a'r

wythnos wedyn ar y nos lau, fe fydd yna noson Tan Gwyllt gyda lluniaeth yn y Ganolfan — y noson i ddechrau am 6 o'r gloch.

**Y Gymdeithas Lenyddol:** Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas ar nos Lun, Tachwedd 16, yn y Ganolfan, pan geir sgwrs gan Mrs Mary Vaughan Jones, gyda Mrs G. Roberts, Tŷ Hen, yn llywyddu. Gyda chymorth sleidiau o'i hymweliadau bydd y darlithydd yn sôn am rai o fannau terfysgld y byd heddiw, manau fel Sgwâr Tiananman yn Beijing a Sarajevo yn Bosnia. Trefnwyd rhaglen ddiddorol am y tymor ac estynnir croeso cynnes i aelodau newydd.

**Clwb Chwaraeon:** Trefnwyd cyngerdd ar ran y Clwb Chwaraeon yn y Ganolfan ar nos Wener, Tachwedd 27, pryd y cymerir rhan gan Côr Meibion yr Eifl, Parti Merched Lliwedd o Lanberis, Carys Edwards o'r Bala, a Myra Turner ac Elin Gwilym i adrodd. Gan na chafwyd cyngerdd yn y pentref ers cryn amser bellach gobeithir y ceir cefnogaeth dda i'r ymdrech hon.

**Enillwyr Clwb 300 am fis Medi —** £40: Meirion Jones, Crud yr Awel (242); £25: Gwenda Griffith, Trefeddyg (31); £10: U. ?????, Braeside.

**Diolch:** Dymuna Rhys, Pant Teg, ddiolch o galon i bawb a fu mor garedig wrtho ar ôl canlyniadau lefel-A a chyn mynd i'r coleg.



Hywel Evans, yr Olympiad o'r Waunfawr — gweler y stori ar y dudalen gefn.

**Diolch:** Dymuna Bryn a Linda Griffith, Perthi, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am yr holl gardiau a dderbyniodd y ddau ar enedigaeth eu merch fach llyd Bryn.

**Dyweddio:** Llongyfarchiadau i Dylan Jones, Eryri Wen, ar ei ddyweddïad â Nia o Rhostryfan. Dymunwn pob dymuniad da i chi.

**Bore Coffi:** Dymuna Brenda, Bryn Gloch, Betws Garmon, ddiolch am y gefnogaeth wych a gafodd tuag at waith Ymchwil i Gancr y Fron trwy gynnal bore coffi, Sadwrn, Hydref 23, gan godi £332. Diolch arbennig i Pearl, Betty, Carys, Christine a Joan am helpu gyda'r trefniadau, hefyd i bawb a gyfrannodd nwyddau a rhoddion ac a brynodd docyn.

Ychydig fisoedd yn ôl fe ymddangosodd llun o Westy'r Castle, Llanberis, fel ag yr oedd ar ddechrau'r ganrif. Bellach cafwyd benthgyl lluniau dau o westai eraill y pentref o'r un cyfnod. Rhyfedd fel fu'r newid.



Gwesty Glan Eilian.



Gwesty Brook House.

## Emyr Jones

PLYMAR A  
PHEIRIANNYDD  
GWRESOGI


Cynnal Boileri nwy,  
olew, tanwydd solat  
a thredio peipiau

44 Glanffynnon  
LLANRUG  
Caernarfon 3513



Am bob math o  
WYDR wedi'i  
DORRI, DDANFON  
NEU EI OSOD.  
cysylltwch â

**Barrys  
GLASS**



Camelot,  
PENISARWAUN  
Ffôn: Llanberis 871144

## CARTREF HENOED



Caernarfon  
(0286) 4652

## CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

**STIMVAK**

gyda'r offer mwyaf  
modern, diweddaraf, sydd  
ar gael. Am fanylion  
cysylltwch â

**TEGID  
PRITCHARD**

CANOLFAN CARPEDI  
WAUNFAWR 291  
Hefyd ail-osod carpedi



**ERYRI  
ORGANIG**

LLANFAGLAN  
Ffôn: C'fon 76905  
Rhwyng 5 a 7 yr hwyr

CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG

★ Gwrtaieth ★ Bwydydd Hylif

★ Offer atal Pla a Chwyn ★ Compost a mwy  
Archebion Post 'Garddio llaw yn llaw â Natur'



# CHWILOTA ARDAL DINORWIG A'R ELIDIR



**Ymddiheuriad — am fethu'r ddau rifyn diwethaf o'r Eco, ond ar Ddinorwig 'roedd y bai! Prysura i egluro, rhag ofn pechu trigolion hynaws yr ucheldir. Am yr ail dymor yn olynol derbyniais wahoddiad i gynnal cyfres o ddosbarthiadau WEA ar 'Hanes Lleol yn Ninorwig', a doedd 'fiw gwrthod. Felly, yn hytrach na sgennu'r golofn hon, bûm yn chwiloata ar gyfer y dosbarth. Mae cynnyrch y mis hwn yn deillio o rai testunau na chawsom gyfle i'w trafod yn llawn yn Ninorwig.**

## Corlan Rowland Shôn ap Ifan:

Ar rai mapiau cynnar (Arolwg Stâd y Faenol) o ddechrau'r ganrif ddiwethaf, dangosir tiroedd Glan y Bala a Hafodty, a safleoedd cynnar y cloddio am lechi yn y Garret a Chlogwyn y Gigfran. Ar derfyn y tiroedd hyn, ac yn agos i gopa'r Elidir Fach mae'r enw Corlan Rowland Shôn ap Ifan. Ar y pryd doedd gen i ddim syniad pwy oedd y Rowland Shôn hwn, ac ni chlywodd neb o'r dosbarth yr enw'n cael ei ddefnyddio am ran o'r Elidir 'chwaith. Erbyn hyn, daeth peth gwybodaeth amdano i'r amlwg.

Rhaid cofio fod ardal Y Fachwen / Dinorwig yn y ddeunawfed ganrif ac wedyn yn cysidro eglwys Nant Peris fel eu heglwys leol yn hytrach nac eglwys Llanddeiniolen. Yn y Nant yr oedd trigolion ardal Y Fachwen yn cael eu bedyddio, eu priodi a'u claddu gan amlaf; a hynny oherwydd ei bod yn llawer haws teithio i'r eglwys honno nac ar draws y gweundiroedd a thros Ddinas Dinorwig i Landdeiniolen.

O astudio cofrestrau'r ddau blwyf, gwelir bod Rowland Siôn ab Ifan wedi priodi Dorothy Griffith yn 1733 yn Eglwys Llanddeiniolen. Yn 1736 ac 1740 cofnodir bedyddiadau Griffith a Mary, plant Rowland John ap Evan a Dorothy Griffith — y tro hwn yn Eglwys Nant Peris. Yn y Nant hefyd y claddwyd Dorothy yn 1762. Roedd y teulu'n byw yn Ty'n y Coed (Llanddeiniolen). Ond ble'r oedd Ty'n y Coed? O astudio

mapiau Arolwg Stad y Faenol, gellir lleoli'r tŷ rywle rhwng Glan y Bala, Hafodty a Pant y Ceubren. Heddiw, mae'r safle wedi ei gladdu dan domen o rwbel llechi rywle tu cefn i'r Barics wrth ochr y Llwybr Main.

Dangosodd Maredudd ap Rheinallt o Fangor mewn ymchwil diweddar, fod Dorothy Griffith yn ferch i Griffith ab William Bevan o Dy'n y Coed a'i wraig, Catherine uch Ifan (chwaer yr enwog Farged uch Ifan). Chwirydd eraill oedd Sioned uch Ifan, priod Robert Llwyd o'r Gelliad, Llanrug; a Dorothy Ifan, priod Rowland Owen, Byn Derw, Llanddeiniolen (hen daid a hen nain y Parch. Robert Ellis, Ysgoldy).

Mae'n debyg bod hawliau pori ar lethrau'r Elidir Fach yn perthyn i ffermydd Glan y Bala (a'r Hafodty) a Phant y Ceubren; fe'u nodir felly ar rai mapiau. Ond mae'n ymddangos fod gan aelodau teulu Ty'n y Coed rai hawliau hefyd, a bod corlan yn perthyn i Rowland Shôn wedi ei lleoli yn uchel ar yr Elidir Fach.

## Bethlemouth/Bethlemonth?

Tŷ neu ddyddyn bychan yn yr ardal rhwng Dinorwig a'r Alltwn oedd hwn, ond beth yw ystyr yr enw? Awgrymwyd mai enw Beiblaidd ydyw, o bosibl o'r Apocryffa. Oes rhywun all gynnig eglurhad?

Anfonwch unrhyw sylwadau am yr uchod, neu am unrhyw bwt yn ymwneud â hanes lleol ardal yr Eco i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (Caernarfon 3515).

# AD-UNIAD YSGOL

**Oeddech chi ymysg y criw a gychwynnodd eu gyrfa yn Ysgol Brynrefail yn 1965, 1966 neu 1967? Os oeddech, yna byddai Gwyn Parri a Hywyn Williams yn awyddus iawn i glywed gennych, gan eu bod yn bwriadu trefnu ad-uniad ar gyfer disgyblion y tair blynedd hynny.**

Yn ôl Gwyn: 'Mae Hywyn a minnau wedi bod yn sôn am drefnu ad-uniad ers rhai blyneddodde. O'r diwedd, dyma wneud rhywbeth mwy na siarad am y peth'. Bwriada'r ddau drefnu noson gymdeithasol yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, ar nos Sadwrn, Chwefror 6, 1993. Ar hyn o bryd maent yn ceisio darganfod faint o ddiddordeb sydd yn y fath noson cyn mynd ati i wneud y trefniadau pendant.

Cafwyd help cyn-ddisgybl arall, Reg Roberts, sydd bellach wedi bod yn athro yn Ysgol Brynrefail ers rhai blyneddodde, i ffurfio rhestr gyflawn o enwau'r disgyblion a gychwynnodd yn yr Ysgol y tair mlynedd hynny. Anfonwyd llythyr atynt i gael eu

hymateb i'r syniad o drefnu ad-uniad. Wrth gwrs, cyfeiriadau cyfnod Ysgol oedd ar gael, ac felly bu rhaid dibynnu ar help teulu a chyfeillion i sicrhau bod y llythyr yn cyrraedd pen eu taith. Mae'r trefnwyr yn ddiolchgar am bob help o'r fath.

Byddai cyfle i weld cyfeillion ysgol na welwyd mohonynt ers ugain mlynedd o bosib. Mae'n siwr bod cyfarfodydd tebyg a gafwyd ar gyfer blyneddodde eraill wedi bod yn werthfawr iawn.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dod i'r ad-uniad hwn, neu os am fwy o wybodaeth, cysylltwch cyn gynted ag y bo modd â Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen (Ffôn: (0286) 871330.

**Fel y dywedir ar y dudalen flaen, tad a merch a gipiodd y gadair a thlws yr ifanc yn eisteddfod Llanrug eleni. Mae'n braf cael y cyfle yma i gyhoeddi y ddwy stori a wobrwyrwyd gan y Prifardd Selwyn Griffith.**

# CWLWM

**Yr eiliad y deffrodd gwyddai Seimon Harris ei fod yn wynebu trychineb arall yn ei fywyd. Roedd yn gyndyn o agor ei lygaid, ond gallai gweld ar ganfas ei feddwl yr hyn a ddisgwyliai wrth ger erchwyn y gwely. Nid oedd ganddo'r syniad lleiaf faint oedd hi o'r gloch. Gallai ddyfalu ei bod rhywle yn ystod oriau mân y bore. Teimlai'r chwys oer yn dechrau cronni o dan ei geseiliau; ar ei wegil a'i feingefn. Pwyai'r gwaed drwy ei wythiennau ac aeth ei gorff yn chwilboeth. Ond ni feiddiai daflu'r cwrldid oddi arno. Gwyddai bod y cryndod ysytwol hwnnw ar ddod. Gwyddai hefyd y byddai'n rhaid iddo agor ei lygaid a wynebu'r hyn oedd yn ei aros.**

Synhwyrai Elwen Harris fod ei gŵr yn cael hunllef. Nid hunllef gyffredin mohoni. Roedd yn sicr o hynny. Dim ond dwywaith o'r blaen y dioddefodd Seimon hunllefau fel hyn, ac er fod degau o flynyddoedd wedi mynd heibio ers y gyntaf, gwyddai Elwen nad oedd pwrpas iddi geisio cysuro'i gŵr. Rhoes hanner tro yn ei gwely a chil-agor ei llygaid. Gallai weld siâp y ffenestr yn llwyd-dywyll o'i blaen. Eisteddai ei gŵr yn gefnsyth yn ei wely yn rhythu'n ddall i'r tywyllwch. Wedi munud neu ddau daeth y cryndod rhyfeddol hwnnw i'w gorff, ac yna, llithrodd 'nôl dan y dillad a mwmial wrtho'i hun. Rhoes Elwen dro cyfan, a gwthio'i chorff cynnes yn erbyn cefn ei gŵr. Teimlai'r lleithder chwyslyd yn treiddio drwy ei gwisg nos. Yn raddol, tawelodd y cryndod yng nghorff ei gŵr.

Gwyddai'r naill fod y llall yn effro; ond ddywedodd yr un ohonynt air wrth ei gilydd. Gwyddai'r ddau bellach mai dyma'r drefn. Nid oedd dim y gallai Elwen ei wneud, a syrthiodd i gysgu. Yn rhyfedd iawn, breuddwydiodd am y cyfarfyddiad cyntaf hwnnw â'i gŵr.

Pryder oedd yn peri anesmwythyd i Seimon. Cofiodd am y troeon eraill rheini yn dilyn yr hunllef, oherwydd gwyddai fod trychineb arall ar fin digwydd. Gwyddai hefyd mai hon fyddai'r drychineb olaf yn ei fywyd.

Noson oer o Dachwedd oedd hi, a gwynt ciaidd yn brathu'r wyneb. Sylodd Seimon Harris ar yr arwydd llipa yn hongian wrth bostyn y giât: 'Llety'. Dyna enw'r bwthyn bychan ar grib yr allt serth a ddringai ochr y clogwyn o harbwr Glasraig. Cyrhaeddodd y dref fechan gyda'r trên olaf, a chael yr unig westy wedi cau. Awgrymwyd iddo roi cynnig ar 'Llety'; roedd gwraig y tŷ yn arfer cadw gwely a broc wastaf yn ystod yr haf. Rhoes gnoc ysgafn ar ddrws y ffrynt a chlywodd lais ifanc yn cario o rywle o gefn y tŷ. Cil-agorwyd y drws.

'Ia?'

'Mrs Evans? Maddeuwch i mi am 'ch styrbio mor hwyr . . . Cl'wad i lawr yn y dre' fod yma siawns am lodjin . . . hynny ydi . . . os basa hynny'n gyfleus?'

Petrusodd Mrs Evans. Roedd yn ifanc, yn ei hugeiniau cynnar mae'n debyg, fawr hyn na Seimon, ond ôl blinder ar ei hwyneb.

'Dydi'r 'stafell ddim wedi'i pharatoi ganol gae' fel hyn . . .'

Trôdd Seimon ar ei sawdl. ' . . . ond mae croeso i chi ddisgwyl yn y tŷ tra byddai'n hel petha at 'i gilydd.'

Bron nad oedd hi'n erfyn arno i aros. Gallai Seimon synhwyro rhywsut fod angen yr arian arni.

'Ella 'picia'i nôl i'r dre' i chwilio am damaid o rwbath i'w fwyta — mi roith hynny gyfla i chitha baratoi'r 'stafell.'

## GARTH MAELOG

### PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion  
Anifeiliaid anwes bychan  
Pysgod dwr oer  
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio  
cwn a chathod  
o bob math  
gan arbenigwr

**STRYD FAWR, LLANBERIS 870840**

## PEINTWYR PADARN (Trefor Jones ac Alan Bee) LLANBERIS

am waith da ...

★ tu fewn a thu allan

★ crefftwyr gofalus

★ prisiau rhesymol

★ amcanbrisiau am ddim

Ffoniwch **870397**





'Mac croeso i chi rannu'r gegin efo'r hogia' a finna' — ac mae 'na lobsnows yn y sosban ers amser te; fydda' i fawr o dro'n ei ailg'nesu. Hynny ydi, os nad ydach chi isio pryd go-iawn o fwyd.'

'Mi fydd lobsnows ail-dwym yn jyst y peth i glirio'r oerfal 'ma o gorff rhywun . . .'

Ac felly y daeth Seimon Harris i 'Llety' am y tro cyntaf. Setlwyd ar bris, a mynnodd dalu am y lobsnows hefyd.

Yn y gegin roedd au o fechgyn ifanc iawn — dwyflwydd neu dair — yn cyd-chwarae ar y llawr. Chododd yr un o'r ddau eu pennau pan eisteddodd Seimon wrth y bwrdd. Edrychodd o'i amgylch, a sylwi ar lun priodas ar y cwpwrdd gwydr. Wrth ei ochr roedd llun dau fabi — yr hogia mae'n debyg.

Tra'n sgwrsio dros y lobsnows, dealodd Seimon mai gwraig weddw oedd wedi rhoi llety iddo'r noson honno; gwraig weddw a fu'n briod am gwtâ ddwy flynedd. Yn fuan wedi geni'r efeilliaid — Huw a Iolo — lladdwyd ei gŵr mewn damwain yn harbwr Glasgrai. Ers dwy flynedd bu'n ennill ychydig yn ychwaneg o arian drwy gynnig gwely a brecwast i ymwelwyr yn ystod yr haf. Doedd hi erioed wedi meddwl am gadw lodjar — nes i Seimon gyrraedd.

*Doedd Seimon ddim yn gwbl glir ei feddwl. Oedd o'n effro? Pam roedd y dyn yn dal cledr ei law chwith tuag ato fel pe bai'n ei wrthod, ac ar yr un pryd, yn amneidio ar Elwen? Rhythodd arno am yr eilwaith. Roedd o'n ei adnabod. Ond pwy oedd o? Ac yna sylweddolodd, a daeth yn crynodd mwyaf dychrynlyd i feddiannu ei gorff. Byrlymai chwys oer drosto a cheisiodd weiddi, ond doedd ganddo ddim llais. Teimlai ei hun yn llithro. Cerddai'r dyn oddi wrth wysg ei gefn. Roedd o'n parhau i ddal cledr ei law chwith tuag ato ac yn parhau i amneidio ar Elwen â'i law dde. Roedd Seimon yn sgrechian arno i fynd, ond roed yn hollol fud. Gwenodd y dyn cyn troi ei gefn a cherdded allan drwy wal y llofft.*

Roedd Elwen yn effro erbyn hyn, ond doedd dim synnwyr i'w gael gan ei gŵr.

Tybiodd Seimon iddo glywed sŵn gwydr yn malu'n deilchion yn y gegin. Gwnaeth esgus i godi ac aeth i lawr y grisiau. Roedd popeth yn union fel y gadawyd ef y noson cynt — bron bopeth. Sylwodd fod llun ei briodas ef ag Elwen Evans wedi ei droi i'r tu chwith, a bod crac ar wydr y llun o'r bechgyn yn fabanod. Ail-osododd y llun fel ag y dylai fod, ac aeth yn ôl i'w wely. Ddywedodd o ddim wrth Elwen.

Dridiau'n ddiweddarach lladdwyd Huw Evans Harris mewn damwain car y tu allan i ysgol y Glasgrai.

'Y bore 'cafodd o'i ladd mi sylwais i fod yna grac yn y llun ohono fo'n fabi. Fel 'tasa 'na rwbath yn gwybod fod hyn yn mynd i ddigwydd.'

Gwyddai Seimon yn wahanol, ond doedd dim pwrpas dweud. Roedd colli Huw yn gymaint profedigaeth iddo fo ag i Elwen. Roedd wedi magu'r hogiau fel pe baent yn feibion iddo, ac roedd y ddau'n ei gydnabod fel tad. Roedd wedi bod yn dad iddynt ers pan oedd y ddau yn ddwyflwydd oed.

*Gwyddai Seimon y tro hwn fod y dyn yn sefyll wrth erchwyn ei wely, ond doedd o ddim eisiau agor i lygaid i'w*

*weld. Roedd ei gorff yn llosgi a'r gwaed yn pwyto drwy'i wythiennau. Gwaeddodd 'NA', ond ddaeth dim sŵn o'i enau. Gwyddai fod rheidrudd arno i edrych ar y dyn. Oedd, roedd o'n ei adnabod. Gwyddai bellach pam roedd cledr ei law chwith wedi ei thro'i tuag ato. Roedd Seimon yn wrthodedig. Gwyliodd y dyn yn amneidio ar Elwen. Gwyddai bellach mai gweni arni hi a wnâi. Gwaeddodd nerth esgryn ei ben, ond oedd y dyn yn clywed dim. Gwenodd eto cyn troi a cherdded allan drwy wal y llofft.*

Y crynod ychydig ei gŵr a ddeffrodd Elwen. Roedd ei gorff yn wlyb o chwys. Clywodd Seimon yn mwml rhywbeth ac yn codi i fynd i lawr y grisiau. Doedd dim byd wedi ei dorri yn y gegin er i Seimon glywed sŵn gwydr yn malu. Ail-osododd y llun priodas fel ag y dylai fod.

Erbyn diwedd yr wythnos daeth y newyddion am farwolaeth Iolo Evans Harris yn Rhyfel y Falklands.

Trawiad ar y galon oedd achos ei marwolaeth yn ôl y meddyg. Doedd dim y gallai neb fod wedi ei wneud. Ychydig a ddaeth i'r angladd. Doedd gan Elwen Harris fawr o berthnasau. Fe'i claddwyd gyda Huw a'i gŵr cyntaf ym mynwent Glasgrai.

Dim ond Seimon ddychwelodd i 'Llety' yn dilyn yr angladd. Fel yr oedd yn cau'r drws, clywodd sŵn gwydr yn torri'n deilchion. Yn y gegin, roedd llun ei briodas o ag Elwen yn ddarnau ar lawr. Safai dyn wrth y bwrdd yn gwenu. Daliai ei freichiau allan o'i flaen, ac yr oedd cledr ei ddwy law wedi eu troi tuag at Seimon. Trodd, a cherdded allan drwy wal y gegin. Gwyddai Seimon mai dyma'r cyfarfyddiad olaf â gŵr cyntaf ei wraig.

Dafydd Whiteside Thomas.

## CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

MAE'R  
**SAMARIAID**  
YN GWRANDO,  
YN ABBEY ROAD



**BANGOR**  
354646

**GERDDI GLASCOED**

(Ger Capel Glascoed)

**PENISARWAUN**

I'ch gardd  
fod ar ei orau  
galwch heibio  
neu ffoniwch

**870453**

## CAETHIWED

Roedd bywyd yn boen i Siwan, nid oedd neb yn ei derbyn fel merch ifanc. Ers yr adeg honno, fe gefnodd ei frindiau arni pan oedd hi eu hangen. Newidiodd pawb eu hagwedd tuag ati ers iddi gael y newyddion. Cadwai pawb yn glir, rhag ofn, nid oedd Siwan yn gweld ei hun yn fygythiad yn hytrach hi oedd yr unig un a dderbyniodd y drasiedi.

'Siwan, wyt ti'n medru . . .'

'Yndw, mam,' gofynnai ei mam yr un hen gwestiwn bob tro y byddai Siwan yn cario llwyth go lew. 'Dw'i ddim eisiau dy weld di'n gwneud gormod o dan yr amgylchiadau.'

'Mam, plis peidiwch.'

Fel hyn y cychwynodd pob sgwrs, ni wyddai Siwan pam nad oedd pobl yn medru deall ei bod yn marw. Nid y nhw oedd yn wynebu marwolaeth, y hi oedd yr un heb wellhad yn bodoli iddi, Siwan oedd yr un a deimlai ei bod ei thu mewn yn cael ei fwyta yn araf deg bach.

Roedd y cyfan wedi cychwyn pan oedd Siwan yn bedar ar ddeg oed, a'r adeg honno roedd hi'n rhy hwyr i'w hachub. Fe dderbyniodd ambell driniaeth ond nid oedd dim gwahaniaeth ynddi, ar wahân i'r ffaith ei bod yn foel a'i hewinedd yn gwrthod tyfu er yr holl ymbil. Salwch gafodd Siwan a fuasai fel arfer yn medru cael ei drin ond yr oedd wedi dal Leukemia yr un a oedd fel rheol yn effeithio ar oedolion.

Bob dydd fe weddiai Siwan y buasai'r holl ddiodeffaint yn diweddu yr holl boen a'r gofid yn dod i ben. Be oedd y pwynt iddi weddio am farw a hithau'n gwneud hynny'n barod.

Y tro cyntaf aeth hi allan i'r gymdeithas ar ôl i bawb gael gwybod am ei salwch, byddai pawb yn ansicr o sut i'w hwynebu a sut i siarad gyda hi.

'Sut ydach chi Siwan?'

'Iawn, diolch.'

'A sut mae o?'

'Y fo?'

'Ia . . . wyddoch chi — y fo.'

'O . . . iawn, diolch.'

Câi Siwan drafferth rhag peidio chwerthin yn aml. Roedd pawb yn cyfeirio at ei salwch fel y 'fo' a wnaiff neb byth ei enwi na'i alw'n gancr. Ni fedr y gymdeithas sylweddoli bod y 'fo' ynddi hi ac nid darn arall iddi ydoedd — y hi oedd y 'fo'.

Plant ysgol oedd y gwaethaf ynglŷn â'i salwch. Bob diwrnod yr âi Siwan i'r ysgol roedd pawb yn edrych yn hurt arni ac yn holi os oedd hi wedi gweld y nefoedd bellach. Gwnai'r athrawon iddi deimlo fel ei bod yn wahanol, eisiau breintiau arbennig, eisiau mwy o gymorth na gweddill y disgyblion. Gwyddai Siwan ei bod yn wahanol ond nid oedd yn gweld y pwynt iddi hi gael yr holl sylw a hithau ddim am fodoli yn llawer hirach.

Tra eisteddai Siwan yn ei gwely rhwng cwsg ag effro â'i yr holl gwestiynau drwy ei meddwl — y rhai nad oedd hi yn eu deall. Pam y hi? Pam bod dim gwellhad? Pam bod rhaid iddi farw? Pam? Pam? Roeddynt yn ailadrodd dro ar ôl tro ond byth . . . byth yn cael ateb i ddatrys ei chymhlethdod. Cododd yn sydyn a dagrau yn rhedeg lawr ei bochau a gwaeddodd: 'Dwi'n byw mewn caethiad, a phobl wedi fy rhoi i mewn caethiad. Dw'i ishio marw, gadwch i fi fynd.'

Rhedodd ei mam i'r llofft a'i chofleidio'n annwyl.

'Na chdi, nghariad i, ti'n iawn rŵan.'

'Mam, pam bod bywyd yn gas?'

'Tydi o ddim, chdi sy' wedi bod yn anlwcus.'

'Pam ga'i ddim marw rŵan a gorffen popeth. Dw'i ishio mynd a gadael llonydd i bawb fynd ymlaen hefo'u bywydau heb feddwl amdana' i.'

'Fydd popeth yn iawn yfory. Dos di i gysgu rŵan y mechan i.'

Gorweddodd Siwan yn ei gwely yn rhythu ar y to, ac yn y pellter clywodd lais ei mam yn canu y gân a arferai ganu pan oedd Siwan yn blentyn ifanc. Caeodd ei llygaid a syrthiodd Siwan i drwmwgsg.

Yn ystod yr wythnos flaenorol roedd salwch Siwan wedi gwaethygu a bu'n rhaid iddi fynd i'r ysbyty ond gan nad oes gwellhad iddi fe'i anfonwyd adref yn syth. Roedd Siwan wedi ysgrifennu llythyr i'w mam ac wedi dweud wrthi am ei ddarllen ar yr amser cywir.

Y bore canlynol gwrthododd Siwan ddeffro yr oedd hi yn dal yn ei thrwmwgsg ond yr unig wahaniaeth oedd nad oedd hi'n anadlu. Roedd yr amser wedi dod, yr oedd hi'n rhydd o'i charchar ac yn rhydd i fynd i ble bynnag yr aeth. Darllenodd ei mam y llythyr y diwrnod hwnnw:

*Annwyl Mam,*

*Mae'n debyg eich bod chi wedi sylweddoli bod fy amser wedi dod ac nawr mi allaf ail ddechrau yn y byd arall a chaf fyw heb gwmwl du uwch fy mhen. Fe gyfarfwn rhywbryd ymhén amser ac mi gofwn am y pethau da yn unig. Byddwch lawen a byddwch falch fy mod wedi cael fy rhyddid.'*

Yn yr angladd daeth pawb o'r disgyblion ysgol gyda'u tafodau bachog, yr athrawon gwarcheidol, ac wrth gwrs, y gymdeithas i gyd i ddweud eu hwyl fawr olaf wrtho 'fo'.

Catrin Thomas.

## GAIR O DDIOLCH

Dymuna parti merched Lleisiau'r Gweunydd ddiolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd eu cyngerdd yn Rhiwlas yn ddiweddar. Diolch am gefnogaeth trigolion y fro a chyfraniad y rhai a ymddangosodd ar y llwyfan. Bydd y côr yn trosglwyddo £660 i Gronfa Llinos Haf yn y dyfodol agos. Mae'r swm uchod hefyd yn cynnwys yr elw o'u raffl yn ystod mis Medi. Diolch i chi i gyd.

## Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Ar agor bob dydd  
o'r wythnos at eich  
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am  
ddanfôn ordor i'ch cartref  
yn ardal Llanrug.



# Raga Rug



7 15 92  
Pris 20c  
ARGRAFFWYR  
IFANC  
LLANRUG




Yn ystod yr wythnosau diwethaf cafwyd arolwg yn yr ysgol i ddarganfod yr enw mwyaf poblogaidd i'r Papur Ysgol Newydd. Mae blwyddyn 5 wedi bod yn brysus iawn yn gwneud thema ar gynllunio Papurau Newydd. Uchafbwynt y tymor oedd yr ymweliad i ganolfan argraffu ' Weekley News ' yng Nghyffordd Llandudno.

Gwion Iwan gafodd y syniad am 'Raga Rug' Pleidleisiodd 52 o blant am yr enw.

Papur Newydd Ysgol Llanrug

Pwy fydd y golygydd tybed?

**PANEL GOLYGYDDOL.** Gwaith y panel golygyddol yw dewis yr holl straeon a lluniau sydd i'w cynnwys yn y papur newydd. Mae'n rhaid i'r panel hefyd benderfynu sut i osod y papur, h.y. Pa stori sy'n mynd i ba dudalen. Mae HYSBYSEBION yn bwysig iawn i bob Papur Newydd. PAM ? ( Trowch i dudalen 2 i gael yr ateo )



**Mae rhai o ddisgyblion Ysgol Llanrug wedi bod yn brysur iawn yn cynhyrchu eu papur bro eu hunain *Raga Rug*. Mae'r Eco yn dymuno pob llwyddiant i'r fenter ac yn edrych ymlaen at y rhifyn nesaf.**

**Doctor, doctor, dw'i 'di llyncu darn o dinsel.**

***Paid â phoeni, ddim ond tinseleitis gei di.***

**Doctor, doctor mae 'ngwraig i'n meddwl  
ei bod hi'n wennol.**

*Dywedwch wrhi am ddod i'm gweld i.*

**Fedra'i ddim, mae hi wedi hedfan i Affrica dros y gaeaf.**

**Doctor, doctor mae cranc wedi brathu fy  
mys i.**

**Pa un?**

**Wn i ddim, mae pob cranc yn edrych yr un fath.**

**Doctor, doctor mae Wil wedi llyncu beiro, beth wna i?**

**Defnyddiwch bensal Mrs Jones.**

**Doctor, doctor mae pawb yn fy anwybyddu i.**

**Nesaf, os gwelwch yn dda.**



**A fedrwch chi gopïo  
llun y wiwer yn  
y blwch uchod,  
ac yna ei lliwio?**

# CWIS PÊL-DROED

## Am ba rai o chwaraewyr pêl-droed Cymru y mae'r cliwiau yn cyfeirio:

1. Ydy hwn ar 'frys' i sgorio gôl?
2. Goliau, gwefreiddiol, gwydych — mae tair 'G' yn ei enw?
3. Mae tacl hwn yn nerthol — fel trwyn y rheino?
4. Chwaraewr ifanc o'r Palas?





# ECO'R IFANC

*Sgwâr Geiriau - Un noson dywyll, dywyll*

|    |   |    |    |    |    |    |    |   |    |
|----|---|----|----|----|----|----|----|---|----|
| h  | n | ng | ll | d  | e  | a  | m  | b | a  |
| dd | o | ff | y  | i  | th | d  | i  | b | l  |
| g  | s | u  | g  | s  | ch | c  | w  | t | f  |
| y  | o | w  | o  | g  | w  | y  | n  | t | ff |
| u  | n | c  | d  | y  | l  | s  | rh | l | p  |
| ch | c | r  | e  | n  | d  | a  | a  | r | b  |
| f  | f | y  | n  | dd | i  | ch | w  | m | a  |
| ng | g | n  | e  | s  | i  | w  | i  | e | ch |
| t  | y | u  | c  | o  | e  | d  | ll | u | n  |
| h  | l | ch | w  | y  | th | u  | m  | t | o  |

- un,  
gwynt,  
coed,  
llygoden,
- noson,  
chwythu,  
crynu,  
ty.
- glaw,  
mellt,  
siw,
- disgyn,  
fflachio,  
miw,

## LLYTHYRAU AT SIÔN CORN

Mae nifer o lythyrau eisoes wedi cyrraedd ffatri Siôn Corn, ond mae cyn gwyno gan fod sillafu nifer o gyfeiriadau lleol yn gymysglyd iawn. Ellwch chwi ddatrys y dirgelwch — ac arbed dagrau Nadolig?

CORWIDIN

WARIAC

AACRETHO

BTNCYOLWT

SARNNIEPT

Atebion y cwis pêldroed a'r cyfeiriadau yn y rhifyn nesaf



# JOSS BACH

## Y Gwalch

**'Roedd teulu Joseph fy nhad yn lluosog ar lawr y plwyf ar ddechreu'r ganrif. Mae 'na wyth o feddau yn gyfochrog yn y gladdfa ym mynwent Llanddeiniolen, ac fel y byddai'r arferaid o ddefnyddio enwau Beiblaidd yr adeg honno, 'roedd yr enw Joseph yn gyffredin yn y teulu, yn ewyrthod a chefnidryd.**

'Roed na gefnder ym Mrynrefail, Joss Rhyddau Duon, a oedd yn cadw cwt biliards yn Nhŷ Glas, ac yn gwerthu baco a thorri gwalltau. I'r fan honno y bydden ni'n dianc oddi ar y ffordd pan fyddai yna rhywbath ddim llawn at ein chwaeth ni yn yr hen ysgol (go-iawn) Brynrefail.

Y Joss yma a ddywedodd wrtha i am achlysur amheuthun yn Waen Hywel, Pontrhythallt ar ddiwrnod cnebrwn ewythr iddo. Joseph oedd enwau'r pedawr llanc a oedd yn codi corff, a dyna hefyd oedd enw'r hwn a oedd yn y gist. Ond yr un a adawodd fwyaf o argraff arnaf i oedd yr un a elwid Joss Bach.

Mab oedd o i Harriet, chwaer fy nhad a oedd wedi priodi Owen Jones, Bryn Llan, Llanrug, ac yr oedden nhw'n ffarmio am gyfnod yn y Gors, Llanddeiniolen. 'Roedd yna griw o blant, a phob un yn gorfod gwneud ei ran i gadw pethau'n mynd mewn cyfnod tlawd a chyfyng. Roeddau nhw yn codi llysiau o'r mawndir, ac yn eu cludo hefo wagan geffyl i Lanberis, mi glywais sôn. Doedd 'na ddim sprows Brussels i gael am ddim yr adeg honno, nac o unman arall chwaith.

Ond yn y twymiad, penderfynodd stâd y Faenol godi rhenti'r ffermydd. Gwrthododd Owen Jones dalu'r codiad, ynghyd â William Owen yr Hendre. Oherwydd afiechyd fodd bynnag, gorfodwyd i hwnnw newid ei feddwl ar yr unfed awr ar ddeg, ond daliodd Owen Jones yn gyndyn, ac o ganlyniad doedd ganddo ddim dewis ond mynd allan o'r Gors, ac fe ddewisiodd fynd a'i deulu i gynnig ei ffawd yng Nghanaada.

'Roedd o'n achlysur i fynd a sylw ardal gyfan yr adeg honno wrth gwrs, ac yn fenter i fynd â'r fath deulu i wlad newydd a dieithr. Ond wnaeth yr ansicrwydd hwnnw fennu dim ar eu gobeithion.

'Roedd yna lun ohonynt i gyd wedi ei dynnu ar y llong cyn iddyn nhw hwylio, yn sefyll yn rhes o'r byraf i'r talaf, a'r babi, Anne Jane a enwyd ar ôl fy nain Gors, ar fraich ei mam.

Beth bynnag, trwy galedwaith a

dyfalbarhad, ffynnu â wnaethant gan sefydlu fferm lewyrchus yn Ontario, er iddynt gael profedigaeth lem yn gynnwys. Lladdwyd Robin, un o'r hogiau canol, drwy gael cic yn ei ben gan geffyl tra roedd yn ei arwain i'r dŵr.

Rwy'n cofio'r llythyrau achlysurol a fyddai'n dod oddi wrthynt a'r negesau Nadolig, a byddai'r hogiau yn anfon at eu hen gyfeillion ysgol ym Mhenisa'rwaun. Cofiaf hefyd fynd ar adegau i Fryn Llan i weld y nain arall gyda'r rhieni i edrych a oedd hi wedi derbyn gair o Ganada yn ddiweddar.

Yn ystod y blynyddoedd, wrth gwrs, tyfodd y plant a phriododd rhai gan wasgaru i sefydlu teuluoedd eu hunain. Ymysg y rhain yr oedd hwnnw a elwid Joss Bach. Yna daeth yr Ail Ryfel i dorri ar draws eu cynlluniau.

Y tro cyntaf i mi weld fy nghefnder oedd yn y Waen Winau, pan ddaethum i wynebu dau filwr wrth i mi ddod o'r ysgol. Roeddent yn gwisgo bathodynau'r *Royal Hamilton Light Cavalry*. Hogyn glandeg, melyn ei wallt oedd Joss, a gydag ef roedd llanc o'r enw Roy, a fu, deallais wedyn, yn gweithio yn ffatri Ford, Detroit, pan oedd Joe Louis yno.

Chawson nhw fawr o orffwys yr adeg honno, 'Roedd Joss yn galw ar ei berthnasau lluosog ar y ddwy ochr. 'Roedd o hefyd yn awyddus i weld ei hen gyfoedion lleol, ac rwy'n cofio mynd yng nghwmni'r ddau ar bnawn glawog yn Ebrill '42, i weld y ddau ddiweddar Griffith Owen Williams a Huw Williams, Bryn Rhudd.

'Roedd eu catrawd yr adeg honno mewn gwersyll yn Hampshire. 'Roedd milwyr Canada wedi dod trosodd ymhell o flaen yr Americanwyr, ac yr oedd yna filoedd yn yr ardal honno.

Criw nwydwyllt oeddynt am y mwyaf, ac yr oedd y trigolion lleol sidet yn gwaredu fod y fath haflwg wedi eu gollwng ar eu trothwy, gan fod yn eu mysg ddrwgweithredwyr a

oedd wedi cael y dewis o fynd i garchar neu'r i'r fyddin. 'Roeddynt hwythau yn eu tro wedi cael bolriad ar yr ymarferiadau dyddiol diflas dibwrpas. Awgrymwyd fod pen-naethiaid wedi ceisio dyfeisio rhyw argyfwng er mwyn cael gwared â rhai oedd mor awyddus i'r frwydr. Ychydig ohonynt mae'n siwr a ddirnadodd sut y buasant yn cael cyfle i ddiwallu'r awydd.

Yn ystod y cynhaeaf gwair yr haf hwnnw, ymddangosodd Joss Bach yn y Gors yn anisgwyl. Roedd o ar wythnos o *leave* ac ar ei ben ei hun. Doedd o fawr o awydd mynd i unman arall, a hefo ni y buo fo drw'r adeg, yn gweithio cyn galeted â neb o blygain i wyll yn lladd gwair hefo'r ceffylau a godro a chario dŵr i mam ar gyfer golchi a chorddi. Yna, ar ddydd ei ymadawiad, diflanodd heb ffarfél na pheth. Roedd fy mam wedi gwaredu at y fath aniolchgarwch, ond roedd fy nhad yn sylweddoli peth arall. Dywedodd wrthyf unwaith. 'Gwybod yr oedd o wyddost ti, na ddaetha fo ddim yn ei ôl.'

Feddyliais i fawr am y peth wedyn, ond ar ddydd fy mhen-blwydd ar yr ugeinfed o Awst, clywsom fod 6,000 o Ganadiaid wedi croesi'r Môr Udd y diwrnod cynt i ddwyn cyrch ar Dieppe. Roeddent ni'n gwybod yn ein calonau fod Joss Bach yn eu mysg.

'Roedd y cyrch yma — a alwyd yn *Operation Jubilee* — yn cael ei gyflwyno i'r cyhoedd yr adeg honno fel llwyddiant diamed — llwyddiant o beth — does neb a wyr. 'Roedd yn wastraff troseddol o fywydau ieuainc, ac erbyn heddiw yn cael ei gydnabod yn alanas milwrol ar raddfa Arnhem a'r Dardanelles. 'Roedd y gelyn erbyn deall yn disgwyl eu dyfodiad.

Mae'r adroddiadau hanesyddol erbyn hyn yn dweud na thrafferthwyd i ganfod mai traeth graean sydd yn Dieppe. Oherwydd hynny, methwyd â glanio tanciau a cherbydau arfog o'r cychod. Nid oedd cefnogaeth o gwbl i'r hogiau ar y llawr, er fod y llu awyr yn cyson ddyrnu'r amddiffynfeydd. 'Roedd y traeth yn cael ei ysgubo fel cenllysg gan *machine guns*, ac yr oedd gynnau trymion yr Almaenwyr o ogofau yn y clogwynni yn chwythu'r cychod a'r

hogiau yn sgyrion cyn iddynt o'r bron lano.

'Roedd y *Royal Hamiltons* a'r *Essex Scottish* mewn sefyllfa gyfochrog ar ganol y traeth, ac yr oedd y gelyn yn eu difa fel pe baent yn saethu cwningod. 'Roedd y lan yn pentyrru o gelaneddau mewn munudau, a'r feisdon yn goch o'u gwaed. 'Roedd y byw yn ffugio bod yn farw yn yr haul crasboeth, eraill yn gweiddi ar eu cymdeithion i beidio â glanio. Ar ôl naw awr o'r fath laddedigaeth, llwyddodd llongau i godi yr ychydig â adawyd, ac encilio. 'Roedd eu byrddau dan eu sang o glwyfedigion, ac yr oedd y meirwon wedi eu rhwymo wrth diwbiau'r torpidos.

'Roedd y Llu Awyr wedi gollwng pamffledi i drigolion Dieppe i ddweud wrthynt mai nid goresgyniad cyffredinol ar Ffrainc oedd y cyrch, ac yn eu cynhori i gadw yn glir o'r brwydro. Serch hynny, llocheswyd rhai Canadiaid gan Ffrancwyr a oedd yn gwybod yn iawn mai ergyd yn y fan oedd yn eu haros am wneud hynny. Dywed ffigyrau mai tua hanner y chwe mil a ddychwelodd — cannoedd yn glwyfedig. Cymerwyd tua dwy fil yn garcharorion, a dygwyd hwy i'r Almaen mewn cadwynni. Doedd eu teuluoedd ddim yn cael y cyfle yr adeg honno i fynd ar y TV i fytheirio am anghyfiawnderau rhyfel.

Ni chlywsom ddim am Joss am gyfnod hir, nes y daeth cerdyn wedi ei sgrifennu mewn pensel o ryw Stalag yn Silesia, ac yno y bu hyd ddiwedd y rhyfel. Pan ddaeth atom ar ei ffordd adref, roedd ôl yr holl gystudd yn glir arno.

Rai blynyddoedd yn ôl, roeddwn yn ymweld â phentref ddim ymhell o Newhaven, ac yno ar y Green, 'roedd criw o Ganadiaid yn coitio. Roeddent ar eu ffordd drannoeth i Dieppe i gynnal eu coffadwriaeth blynyddol. Roedd rhai o'r *Hamiltons* yn eu plith — rhai a fu ar draeth Dieppe hefo Joss Bach y diwrnod tanbaid hwnnw o Awst '42.

Y flwyddyn yma roedd hi'n hanner canrif ers cyrch Dieppe. Does 'na fawr ar ôl erbyn hyn i wneud y bererindod. Mae'r gelyn naturiol wedi teneuo'r rhengoedd. A yw Joss Bach ymhlith y colledig rai erbyn hyn? Nis gwn.

## BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

**Cymdeithas y Chwiorydd:** Cyfarfu Cymdeithas Chwiorydd Brynrefail M.C., nos Iau, 1 Hydref, dan lywyddiaeth Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog. 'Roedd rhan gyntaf y cyfarfod dan arweiniad yr ysgrifenyddes Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc. Darllenodd ddetholiad allan o lyfr ei thaid, y diweddar William Williams, sy'n olrhain *Hynafiaethau a Thradoddiadau Plwyf Llanberis a'r Amgylchoedd*, gan roi sylw yn bennaf i'r bennod ar 'Yr Eglwys a'i Hoffeiriaid'. Gwerthfawrogwyd ei chyfraniad yn fawr iawn a da yw deall bod y llyfryn gwerthfawr hwn wedi ei ail-graffu yn ddiweddar. Treuliwyd gweddill y cyfarfod yn trefnu'r rhaglen ar gyfer y tymor nesaf, Ebrill-Hydref 1993. Y swyddogion am y tymor fydd Mrs J. A. Roberts, llywydd; Mrs Jennie Hughes, ysgrifennydd; Mrs Verna Jones, trysorydd.

**Cofion:** Anfonwn ein cofion at Mrs Betty Owen, Llwyncoed Bach, wedi damwain yn ddiweddar. Da deall ei bod yn gwella.

**Casgliad:** Yn ystod mis Hydref gwnaed casgliad yn yr ardal at Gymdeithas y Beiblau. Trosglwyddwyd y swm o £60.70 i drysorydd cangen Deiniolen o'r Gymdeithas. Diolch i'r casglyddion am eu gwaith ac i bawb am eu cyfraniadau.

## NANT PERIS

Ann Fleming, Dolwen, 8 Nant Ffynnon.

**Rehoboth:** Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch capel Rehoboth brynawn Sul, Hydref 25. Roedd amryw o'r aelodau yn cymryd rhan yn yr oedfa a drefnwyd gan y gweinidog, y Parchg John Pritchard.

## LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Dewis eang o  
Welyau Sengl a Dwbl.  
Dewis eang o '3 Piece Suites'.  
Lleni 'Venetian' a Lleni 'Roler'.  
Gwaith Contract.  
5,000 llathen sgwâr o garpedi  
mewn stoc - allwch chi  
fforddio prynu o batrymau?

WAUNFAWR 291

Ar Agor  
9-7pm  
9-7pm Sadwrn  
Argau  
Sul a Mercher



## BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Fêlinheli 670726

**Diolch:** Dymuna Wil a Nora Parry, 11 Tan-y-buarth, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llw cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Arian ar Fedi 16.

**Llongyfarchiadau** i Mr a Mrs S. O. Hughes, Tan y Cae, ar ddathlu eu Priodas Arian yn ystod mis Hydref. **Priodasau:** Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Huw Roberts, Penrhos, ar achlysur ei briodas ar ddydd Sadwrn, 19 Hydref.

Llongyfarchiadau a dymuniadau da, er braidd yn hwyr mae'n wir, i Helen Jones, Garreg Godi gynt, ar ei phriodas fis Awst.

Llongyfarchiadau a phob lwc i Sioned Jones, Cremllyn, yn dilyn ei phriodas ddiweddar.

**Adref o'r Ysbyty:** Croeso adref o'r ysbyty i Mr Stanley Morgan, Llwyn Bedw. Bu Stan mewn ysbytai am rai misoedd. Dymunir adferiad llwyr iddo.

**Dathlu pen-blwydd:** Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Gethin Jones, Stad Eryri; Sian Emlyn, Bethlyn; a Bethan Jones, Fachell, ar ddathlu eu pen-blwydd yn 18 oed yn ystod mis Hydref.

**Cydymdeimlo:** Ddydd Llun, 28 Medi, bu farw Mr Stanley Griffiths, Tre Gof. Yn frodor o Fethel bu Mr a Mrs Griffiths yn byw yn Lerpwl am flynyddoedd cyn dychwelyd i'r pentref ar ôl ymddeol rai blynyddoedd yn ôl. Bu Stanley yn brif ddosbarthwr yr Eco ym Methel am flynyddoedd ac roedd yn parhau i ddosbarthu yn ardal Tre Gof. Diolchir am ei wasanaeth. Estynnir ein cydymdeimlad â Mrs Griffiths a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

**Clwb 200 y Neuadd Goffa:** Enillwyd mis Medi oedd — £20: Danny Humphreys, Is Elen (225); £10: Meinir Roberts, Gwynfryn (167); £5: Jean Vize, Cefn Rhos (90); Mair Jones, 15 Stad Eryri (33); Joyce Pugh, 9 Tan-y-buarth (130); Ellen Morris, Fachell (26); Gwilym Jones, Y Post (93); Emrys Read, 5 Cefn Cynrig (89); Wyn Evans, Parciau Rhos (194); Mona Williams, 9 Bro Rhos (175).

**Ysgol Feithrin:** Bu 25 o blant ynghyd â'u mamau a ffrindiau yn cymryd rhan mewn taith gerdded nodedig o amgylch y pentref yn ddiweddar i godi arian er budd yr Ysgol Feithrin. **Clybiau Pêl-droed:** Y tymor yma

ffurfiwyd dau dîm o ieuenctid yn y pentref a dyma'r canlyniadau hyd yma — dan 12 oed: Bethel 7 Pwllheli 3; Bethel 4 Llangristiolus 3; Deiniolen 0 Bethel 9. Dan 14 oed: Bethel 0 Llanrug 9; Tal-y-sarn 1 Bethel 4; Bethel 0 Llanllechid 9.

**Urdd:** Yn y Cyfarfod Blynyddol yn ddiweddar etholwyd y swyddogion canlynol — cadeirydd: Geraint Elis; ysgrifennydd: Eirlys Williams; ysgrifennydd aelodaeth: Mair Read; arweinydd y gangen: Glenys Griffiths. Penderfynwyd cynnal gweithgareddau'r Gangen leol fel arfer. Bydd sesiwn gyntaf o 5.15 hyd 6 o'r gloch i blant blwyddyn 2, 3 a 4; a'r ail sesiwn i blant blwyddyn 5 a 6 o 6 tan 7. Penderfynwyd hefyd i gynnig gweithgareddau eleni i ddisgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 (Ysgol Uwchradd) sydd wedi ymaelodi yn yr ysgol neu yn y gangen leol. Bellach mae oddeutu 60 o blant wedi ymaelodi a'r gangen leol, ac mae rhaglen ddiddorol wedi'i threfnu ar eu cyfer.

**Noson Tân Gwylt:** Eto, eleni mae pwyllgor yr Urdd yn trefnu noson arddangos tân gwylt ynghyd â cawl, cŵn poeth a diod am bris rhesymol, ar nos lau, 5 Tachwedd. Bydd swyddogion ger y Neuadd o 5.30 ymlaen i dderbyn unrhyw sbwriel ar gyfer y tân.

**Diolch:** Dymuna Mrs Mary Griffiths, Tre'r Gof, ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynwyd iddi a'r teulu yn eu profedigaeth yn ddiweddar. Diolch arbennig am y rhoddion ariannol a ddaeth i law er cof am ei phriod, Stanley Griffiths. Bydd yr arian yn cael eu trosglwyddo i'r Uned Gofal y Galon, Ward Aran, Ysbyty Gwynedd.

**Gwasanaethau Diolchgarwch:** Yng nghwmni tua 30 o blant Ysgol Sul y Cysegr arweiniwyd cynulleidfadau o aelodau, rhieni a chyfeillion mewn gwasanaeth o ddiolch. Cyflwynwyd y plant gan Geraint Elis. Wrth yr organ 'roedd Rita Williams a Ceinwen Williams, ac yn cael eu cynorthwyo gan Lynwen Morris, Myfanwy Jones, Nan Owen a Huw Pritchard. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan Rhian Hughes. Diolchwyd gan Geraint Elis i bawb a gymrodd ran a chyfeiriwyd yn arbennig at wasanaeth hir a diflino Goronwy Jones, Glangors, a fu yn arolygwr yr Ysgol Sul yn y

Cysegr am 40 mlynedd. Er yn rhoi i fyny y swydd bydd yn parhau i roddi pob cefnogaeth yn y dyfodol i waith yr Ysgol Sul. Bydd y llw ffrwythau a llysiau a ddygwyd gan y plant fel rhoddion diolch yn cael eu rhannu i rai o henoed y pentref. Hyfryd oedd cael cwmni nifer o breswylwyr cartref St. Teilo yng nghyfarfod gweddi pnawn Llun.

**Clwb Ffermwyr Ieuaic Caernarfon:** Enillwyd yr Helfa Drysor a gynhaliwyd ar 22 Medi gan Alwyn a'i griw; gyda Eirlys a'i griw yn ail agos iawn. Elwyn a'i griw gafodd y wobwr gysur. Darparwyd y barbeciw gan Helen a Myfanwy a mwynhaodd pawb y noson. Mr Ken Williams, milfeddyg yn Llŷn oedd yn ein diddanu ar nos Fawrth 29 Medi. Daeth a boc o gelfi a ddefnyddir gan filfeddyg gydag ef. 'Roedd ganddo offer o'r presennol a'r gorffennol. Cafwyd noson ddiddorol dros ben.

Fideo o noson Sioe Ffasiwn a gynhaliwyd ddechrau mis Mai yng Nghricieth a gawsom ar nos Fawrth, 6 Hydref. Cynhaliwyd y sioe i godi arian tuag at ddwy o aelodau Eryri sydd wedi dioddef anhwylderau yn ddiweddar, sef Llinos Haf o Glwb Llanrwst a Llinos Jones o Glwb Porthdinllaen. Cymerwyd rhan yn y sioe ffasiwn gan aelodau Clybiau Ffermwyr Ieuaic Eryri gyda pob Clwb yn cael ei gynrychioli. 'Roedd y dillad a oeddynt yn arddangos o siopau lleol megis Trefor Jones, Myracles ac ACS Sport. Cynrychiolwyd y Clwb gan Helen, Eirlys a Tudur — roeddynt yn edrych yn ddel iawn ar y tâp!

Nos Fawrth, 13 Hydref, cawsom noson o gwis a 'Give Us a Clue'. Ymunodd pawb yn yr hwyl a diolch i Bethan a Myfanwy am drefnu. Tim Elwyn a orfu. Mae croeso i unrhyw un ymaelodi â ni os ydynt rhwng 13 a 26 oed. Mae'r Clwb yn cyfarfod bob nos Fawrth yn Neuadd Goffa Bethel.

**Clwb y Rhos:** Nos Lun, 12 Hydref, agorwyd y tymor newydd gyda noson ddifyr iawn yng nghwmni Elwyn Hughes, Bryn Ogwen.

**Merched y Wawr:** Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref o dan lywyddiaeth Mrs Rhian Hughes. Llongyfarchwyd Mrs Alys Jones, Mrs Meinir Roberts ac Aled, mab Mrs Gwyneth Jones ar eu llwyddiant

diweddar. Cydymdeimlwyd â Mrs Mary Griffiths yn ei phrofedigaeth.

Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Ann Morgan, Llanddaniel, a Delyth Murphy, Bangor, o gymdeithas 'Tearfund', ar ôl sgwrs ac edrych ar sleidiau cafodd yr aelodau gyfle i brynu rhai o nwyddau 'Tearcraft'. Diolchwyd i'r ddwy gan Mrs Enid Williams. Y gwestwragedd oedd Mrs Ann Elis, Mrs Gwyneth Jones a Mrs Sheila Roberts. Enillwyd y raffl gan Mrs Ceridwen Williams.

Bydd cyfarfod nesaf y gangen yn Neuadd yr Ysgol Gynradd ar nos Fercher, 11 Tachwedd, am 7.30 o'r gloch pryd y bydd Margaret Griffiths yn rhoi enghreifftiau o goginio Fictorianaid a bydd cyfle i'r aelodau i flasgu y bwydydd. Cystadleuaeth y mis fydd hen gwpan a soser de.

**Cantorion Elidir:** Mae'r Cantorion yn cyfarfod yn rheolaidd bob nos lau yn yr Ysgol Gynradd gan roi pleser a mwynhad i amryw o'r ardal. Ddechrau'r mis buont yn diddori yng Nghanolfan Pendalar, Caernarfon, a bu'r noson yn hynod o hapus a phleserus, ac yn brofiad i'r côr gael canu o dan gyfarwyddyd amryw o arweinyddion brwdfrydig a thalentog.

Nos Sul, 25 Hydref, bu Cymanfa Ganu yng nghapel Seion, Hiracl, a chafwyd eitemau gan y côr.

Prif waith y tymor yma yw'r 'Croeshoeliad' (Crucifixion, Stainer) ac fe berfformir y gwaith hwn ar y cyd â Chôr Bro Dyfnan, Môn, yng Nghapel Engedi, Caernarfon, ar 7 Ebrill 1993. Os oes gennych diddordeb i ymuno â Chantorion Elidir fe fyddai'r arweinydd, Robin Jones, yn falch o glywed gennych — ffoniwch 670140.



Yswiriant Car neu  
Yswiriant Tŷ  
Gadewch i ni  
Roi pris i chi.

**TARIAN**  
6 Stryd Bangor,  
Caernarfon  
Ffôn (0286) 77787

**Cefnogwch ein  
Hysbysebwy**

## GORSAF BETROL



## BERAN

DEINIOLEN.


**Ffôn: Llanberis 871521**

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod  
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo  
Cylchgronnau ● Papurau Newydd  
Cardiau Penblwydd ● Wyau  
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

## BETHEL

## SCAFFOLDING



**BRYN Y CHWILOG, BETHEL**  
**Ffôn: Portdinorwig (93) 670325**

- ★ Sgaffaldiau ar gyfer jobsus
- ★ Prisiau cystadleuol
- ★ Ffoniwch i gael estimate yn rhad ac am ddim



# LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

## Eisteddfod Bentrif Llanrug

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ar nos Wener, Hydref 9, yn Ysgol Brynrefail. Y beirniaid oedd — cerdd a cherdd dant: Haf Morris; adrodd, barddoniaeth a rhyddiaith: Selwyn Griffith; gosod blodau, coginio, tecstilau, arlunio a thri dimensiwn: Mary Morris; ffotograffiaeth: Islwyn Jones; dawns: Eileen Williams. Y cyfeilyddion oedd Olwen Roberts ac Annette Bryn Pary.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfranodd mewn unrhyw fodd at lwyddiant yr Eisteddfod.

### CANLYNIADAU

(S = Safon; BI = Blwyddyn; YG = Ysgol Gynradd; YU = Ysgol Uwchradd)

**Unawd dosbarth derbyn:** 1, Meilir/Fflur. **Adrodd dosbarth derbyn:** 1, Ifan; 2, Fflur; 3, Sara; 4, Meilir. **Unawd cyn oedran ysgol:** 1, Llinos; 2, Ilin; 3, Rachel; 4, Emily, Eifion, Tracey, Rhys; 5, Eigan, Gareth, Hannah Cai. **Adrodd cyn oedran ysgol:** 1, Ilinos; 2, Emily; 3, Rachel. **Unawd babanod canol ac uchaf:** 1, Ceri; 2, Geraint/Natalie; 3, Elen; **Adrodd babanod canol ac uchaf:** 1, Natalie; 2, Lindsey; 3, Geraint; 4, Daniel. **Adrodd S 1 a 2:** 1, Iwan. **Unawd piano S 1 a 2:** 1, Zoe. **Unawd S 3 a 4:** 1, Michelle; 2, Sian; 3, Elin. **Adrodd S 3 a 4:** 1, Elin; 2, Michelle; 3, Sian/Gwion; 4, Ceri/Meleri. **Unawd ar unrhyw offeryn pres i oedran YG:** 1, Gwion; 2, Gareth. **Parti dawns werin i oedran YG:** 1, Parti Steffan; 2, Parti Moelyn. **Unawd cerdd dant:** 1, Michelle. **Unawd piano S 3 a 4:** 1, Michelle; 2, Elin; 3, Meleri; 4, Rhys/Gwenlli/Sian. **Cyflwyniad llafar:** 1, Parti Lliwiau. **Unawd ar unrhyw offeryn heblaw pres a phlano:** 1, Sian. **Dawns fodern:** 1, Awen ac Andrea. **Unawd:** 1, Kelly; 2, Dafydd. **Grŵp offerynnol:** 1, Gwyrddni'r Grug; 2, Traed Moch. **Dawns werin unigol:** 1, Elin; 2, Gareth. **Unawd piano:** 1, Jacqueline/Rhian; 2, Nicola; 3, Siwan; 4, Ieuan/Iona/Ema. **Cyflwyniad llafar digrif:** 1, Haf a'i Ffrindiau. **Dawns werin i barti:** 1, Gelynydd y Gelynydd; 2, Ychydig o Newid. **Tlws yr Ifanc:** 1, Catrin Thomas. **Cadeir yr Eisteddfod:** Dafydd Whiteside Thomas. **Cadeir Lowri:** Ceri Meredith. **Cwpan Emma Bernard:** Guto Sion. **Llinell Goll:** Dafydd Whiteside Thomas. **Raffl:** Dafydd. **CELF A CHREFFT** — Gwnio: Babanod canol ac uchaf: 1, Rhian Jones; S 3 a 4: 1, Elin Dafydd; 2, Meleri Mair Griffith; 3, Ceri Jones; Agored: 1, Bethanne Williams; 2, Anne Gibbins a Bethanne. **Gwau neu grosio:** YU: 1, Nicky Gibbins; 2, Donna Roberts; 3, Donna Roberts; Agored: 1, Beryl Thomas; 2, Eirianwen Thomas; 3, Donna Roberts. **COGINIO** — Babanod canol ac uchaf: 1, Natalie Blanchard; 2, Gareth Roberts; 3, Geraint Iwan; 4, Rhian Jones a Guto Rhun. S 1 a 2: 1, Dion Sion Owen; 2, Iwan P. Jones; 3, Huw Evans. S 3 a 4: 1, Sian Green; 2, Meleri Mair Griffith; 3, Nicola Edwards. BI 1 a 2: 1, Emma Davies; 2, Lynwen Hamer; 3, Gwennan Humphreys. BI 3 a 4: 1, Rhian Green. BI 5/6: 1, Donna Roberts. Agored — merched: 1, Nan Humphreys; 2, Doris Evans a Sally Davies. Agored — dynion: 1, R. Evans; 2, Rolant Wynne; 3, John Evans ac Iddwal Williams. Agored — Jam: 1, Bethanne Williams; 2, Pat Jones; 3, Eirianwen Thomas. Agored — Chutney: 1, Eirianwen Thomas; 2, Yvonne Pitts. Gwin: 1, Eirianwen Thomas; 2, Bethanne Williams; 3, Brian Cook. Gosod blodau: 1, Judy Roberts.

**TRI DIMENSIWN** — cyn oedran ysgol a dosbarth derbyn: 1, Iwan Lloyd; 2, Meilir Owen; 3, Jake Burston. Babanod canol ac uchaf: 1, Guto Rhun; 2, Calfyn Edwards a Natalie Blanchard; 3, Huw Mackinnon. S 1 a 2: 1, Bethan Mackinnon; 2, Dion Sion Owen; 3, Iwan Rhys a Gethin Jones; 4, Iwan P. Jones a Sion Emyr. S 3 a 4: 1, Hefin Roberts; 2, Sian Green a Gareth Davies; 3, Gwion Iwan. BI 1 a 2: 1, Emma L. Davies.

**FFOTOGRAFFIAETH** — oedran YG: 1, Elin Dafydd; 2, Dion Sion Owen; 3, Dion Sion Owen. Oedran YU: 1, Luned Mair Jones; 2, Cheryl Edwards; 3, Eifion Roberts. Agored: 1, Donna Roberts; 2, Donna Roberts.

**ARLUNIO** — Oedran Ysgol Feithrin: 1, Ian Wyn Jones; 2, Hannah Thomas; 3, Hannah Benson. Dosbarth derbyn: 1, Fflur Angharad Griffith; 2, Meilir Sion Owen ac Iwan Machno Lloyd; 3, Jacob Burston. Babanod canol ac uchaf: 1, Natalie Blanchard; 2, Calfyn Edwards; 3, Guto Rhun. S 1 a 2: 1, Dion Sion Owen; 2, Sion Emyr. S 3 a 4: 1, Guto Sion Humphreys a Sian Green; 2, Iolo Roberts; 3, Meleri Mair Griffiths; 4, Sian Green. BI 1 a 2: 1, Jacky Gibbins; 2, Emma L. Davies ac Iona Wyn Williams. BI 3 a 4: 1, Carwyn Machno Lloyd; 2, Rhian Green. BI 5 a 6: 1, Donna Roberts.

**LLENYDDIAETH** — S 1 a 2, Rhyddiaith: 1, Nia Williams; 2, Iwan P. Jones; 3, Dion Sion Owen; Barddoniaeth: 1, Nia Williams; 2, Iwan P. Jones. S 3 a 4, Rhyddiaith: 1, Elin Dafydd a Gwenno Williams; 2, Liza Jones a Steffan Evans; 3, Ceri Jones; Barddoniaeth: 1, Elin Dafydd; 2, Sian Green; 3, Awen Humphreys. BI 1 a 2, Rhyddiaith: 1, Delyth Humphreys; 2, Iona W. Williams a Claire Evans; 3, Gwennan Humphreys ac Emma Lloyd Davies; 4, Sian Davies a Kelly Roberts; Barddoniaeth: 1, Emma Lloyd Davies; 2, Sian Davies a Kelly Roberts; 3, Delyth Humphreys. BI 3 a 4, Rhyddiaith: 1, Llyr Sion Roberts; 2, Siwan Humphreys. BI 5 a 6, Rhyddiaith: 1, Catrin Thomas; 2, Donna Roberts. Cân Rydd: 1, Dafydd Whiteside Thomas. Gwaith rydd/creadigol: 1, Dafydd Whiteside Thomas; 2, 'Datod' 7; 3, Donna Roberts. Erthygl Ffeithiol: 1, Robert Williams. Limrig: 1 a 2, Dafydd Whiteside Thomas. Perodi: 1 a 2, Robert Williams. Rhai dros 60: 1, 'Un yn cwyno'; 2, Mair Jones.

**Cymdeithas Lenyddol:** Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor o'r Gymdeithas yn festri Capel y Rhos, nos Fawrth, Tachwedd 4, am 7.30 p.m. Noson o adloniant gan barti Awelon y Mynydd. Croeso cynnes i bawb.

**Plismon i aros:** Ymfalchiwn fod yr Heddwas Dewi Wyn Thomas, ei wraig Susan, a'u plant Aaron a Hannah, am ddal i fyw yn nhŷ'r heddlu. Wedi'r newidiadau diweddar cauwyd yr orsaf yn y pentref gan weithredu o Lanberis.

**Plaid Cymru:** Ar nos Fercher, 30 Medi, daeth O. M. Roberts, Dyffryn Conwy, atom i ddweud hanes Plaid Cymru. Croesawyd ef yn gynnes iawn gan Phyllis Ellis a phleser oedd gwrandao ar ei anerchiad gyda llawer o atgofion personol am ddyddiau cynnar y Plaid. Mae llawer mwy o atgofion ganddo a gobeithiwn cael clywed mwy ohonynt y tymor nesaf. Neges pawb ohonom i O. M. Roberts ar ddiwedd y noson oedd — brysiwch yma eto. Rhoddwyd y te gan Vera Williams a'r raffl gan Rhian Jones, Minffordd, a'r enillydd oedd Dafydd Wigley. Yr wythnos ganlynol, Hydref 7, croesawyd yr Aelod Seneddol Dafydd Wigley i'r gangen i siarad am ymgyrch Senedd i Gymru. Rhoddodd anerchiad grymus ac amserol iawn i ni gyda thrafodaeth yn dilyn. Y tro yma rhoddwyd y te gan Carrie Owen, Tŷ Fry a'r raffl gan Mary Roberts, Gwyndy, gyda'r Cyng. Emyr Jones yn ei hennill.

Enillwyr diweddaraf y Clwb Cant oedd — Medi: 1, Betty Williams, Caernarfon; 2, Meryl Green, Pontrug. Hydref: 1, Hefin Jones, Pant Mwyn; 2, Mrs G. M. Jones, Dalar Deg.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen ar nos Fercher, 4 Tachwedd, yn y Sefydliad Coffa am 7.30 o'r gloch ac edrychwn ymlaen at sgwrs gan Sam Roberts, Caernarfon.

Gwaith nesaf aelodau'r pwyllgor fydd trefnu'r Ffair Nadolig ar nos



Rhai o aelodau cangen Merched y Wawr, Llanrug, yn dilyn eu buddugoliaeth ddwbl yn Eisteddfod Genedlaethol y Mudiad, ym Mhonrhydfendigaid ym mis Mehefin eleni. Enillwyd y gystadleuaeth i gorau o dan 40 (hynny yw nifer o aelodau, nid oedran!), a'r gystadleuaeth Dawnsio Gwerin. Canlyniad haeddiannol wedi misoedd o waith caled, ac yn gyfraniad gwerthfawr i gyfanswm pwyntiau Rhanbarth Arfon.

Fercher, Rhagfyr 2, yn yr Ysgol Gynradd. Fe dderbynir unrhyw gyfraniadau a rhoddion i'r stondinau a'r raffl yn ddiolgar. Os am fwy o wybodaeth ffoniwch Waunfawr 200.

### Diolchiadau:

Dymuna Mrs Katie Griffith, 20 Hafan Elan, ddiolch o galon am y llu anrhegion, arian, blodau a chardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch arbennig i Nia am drefnu'r wledd yng Ngwesty Dolbadarn. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni ei phlant, ei ŵyr, wyresau, ei gorŵyr, gorwyresau, ei theulu a'i ffrindiau o Hafan Elan. Diolch i Raymond Jones am ein difyrru ar y noson ac hefyd Mrs Dilys Jones (Warden) am ei charedigrwydd parod.

Dymuna Mai Davies, Bod Awel, ddiolch i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Dewi Sant, ac wedyn ar ôl dod adref. Diolch o galon am yr holl gardiau, anrhegion, blodau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd gan deulu, ffrindiau a chymdognion. Diolch arbennig i'r meddygon teulu.

**Diolch:** Dymuna Dyfed Whiteside Thomas ddiolch am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.



Julie a Mary, o gangen Merched y Wawr Llanrug, gyda'r eitemau o grefftwaith. Cloc hardd mewn 'quilling' a wnaed gan Julie a llun olew hyfryd a beintiodd Mary. Daeth Arfon yn ail yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Eisteddfod.

### PLAID CYMRU, LLANRUG

### FFAIR NADOLIG

### gyda Siôn Corn

Yn yr Ysgol Gynradd

nos Fercher, Rhagfyr 2, 1992

MWY O FANYLION ETO

## CANOLFAN GYMDEITHASOL LLANRUG

Ym mis Ebrill eleni cynhaliwyd cyfarfod yn Llanrug i drafod y posibilrwydd o sefydlu un ganolfan aml-bwrpas i'r pentref. Galwyd y cyfarfod gan y Cyngor Cymuned, a gwahoddwyd eglwysi a chapeli'r pentref a phwyllgorau'r Band a'r Sefydliad Coffa i anfon cynrychiolwyr iddo. Ar y cychwyn, y bwriad oedd trafod gyda pherchenogion ac ymddiriedolwyr adeiladau a safleoedd o fewn y pentref yn unig. Ar y pryd roedd y capeli Methodistaidd yn trafod yr angen am uno. Gwelwyd felly bod yma gyfle i geisio sefydlu un ganolfan a allai fod yn addas i holl ddibenion cymdeithasol a chrefyddol y pentref.

Yn y cyfarfod cyntaf roedd cytundeb cyffredinol i'r egwyddor (gan dderbyn y byddai gan pob sefydliad eu problemau unigol eu hunain i'w datrys). Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd pellach i drafod ac i dderbyn anghenion unigol pob mudiad. Yn y cyfamser mae'r capeli Methodistaidd wedi bwrw ymlaen â'u trefniadau i ymuno dan yr unto o fis Ionawr 1993 ymlaen — ond ar yr un pryd, yn cytuno â'r egwyddor o symud i Ganolfan pan gaiff honno ei sefydlu.

Un cwestiwn amlwg sydd wedi cael ei ystyried gydol y trafodaethau yw 'Ble mae'r safle gorau i Ganolfan Gymdeithasol?' Y mae cost prynu

safle addas y tu hwnt i gyrraedd y gymdeithas. Rhaid felly oedd ystyried safleoedd sydd eisoes ym meddiant mudiadau o'r pentref. Y mae i bob un o'r safleoedd rheini eu

manteision a'u hanfanteision. Daethpwyd i gytundeb cyffredinol (ond nid unfrydol) fod safle'r cae chwarae cyhoeddus yn ateb y gofynion. Mae'r Cyngor Cymuned (fel ymddiriedolwyr y Cae Chwarae) yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio amlinellol ar y safle.

Y teimlad erbyn hyn yw fod angen gwyntyllu a thrafod ymhellach ag unigolion a chymdeithasau eraill o fewn y pentref a fyddai â diddordeb mewn hyrwyddo'r gwaith o sefydlu Canolfan Gymdeithasol Aml-bwrpas yn Llanrug. I'r bwriad hwn gwahoddir chwi i Gyfarfod Cyhoeddus a gynhelir yn Ysgol Gynradd Llanrug, nos Lun, Tachwedd 9fed am 7 o'r gloch.

**CANOLFAN GYMDEITHASOL  
AML-BWRPAS YN LLANRUG  
CYFARFOD CYHOEDDUS  
yn YSGOL GYNRADD LLANRUG  
NOS LUN, TACHWEDD 9fed  
am 7 o'r gloch  
CROESO CYNNES I BAWB**



# 'Un Funud Fach' GAEAF CALED?

Daeth eira cynta'r tymor i gopa'r mynyddoedd. Mae'r tywydd wedi oeri a'r dydd wedi byrhau. Dyma rifyn mis Tachwedd yr Eco yn gweld golau ddydd, ac mae'r siopau'n llawn o nwyddau'r 'Dolig. Ydi, mae'r gaeaf wedi dod. Ac eleni cawsom arwydd newydd sbon o ddyfodiad y gaeaf. Mae timau pêl-droed ein Cynghrair Genedlaethol newydd wedi bod yn teithio'n gyson rhwng de a drefedd ers mis Awst, ond bellach daeth diwedd ar y teithio hwnnw a bydd timau fel Dinas Bangor yn chwarae yn erbyn timau'r gogledd yn unig nes daw'r gwanwyn eto.

Ac fe ddaw'r gwanwyn. Boed y gaeaf hwn yn fwyn neu'n galed, bydd yn mynd heibio. Bydd yr eira'n darfu a'r dydd yn ymestyn, bydd y blodau'n blaguro ac fe ddaw'r tywydd braf. A chaiff timau pêl-droed y de a'r gogledd gyfarfod eto. Pan ddaw'r gwanwyn. Daw, fe ddaw'r gwanwyn, yn ôl addewid Duw, 'Pryd hau, a chynhaeaf, ac oerni, a gwres, a haf, a gaeaf, a dydd, a nos, ni phaid mwy holl ddyddiau y ddaear'.

Ond beth am y gaeaf ysbrydol sydd wedi cau am ein gwlad? Mae i hwnnw hefyd ei arwyddion. Niwl wedi dod dros lygaid pobol fel na fedran nhw weld gwerth yn Efengyl Iesu Grist. Caledwch yn y galon sy'n gwneud i bobol beidio â chymryd Duw o ddifri. Oerni yng nghalon llawer o Gristnogion yn eu gwneud yn ddi-sêl dros eu Gwaredwr. A bu'n aeaf hir a chaled eisoes.

Erbyn mis Chwefror mae'n siwr y byddwn yn dyheu am weld y gaeaf yn cilio. Mae eisoes yn hen bryd i'r gwanwyn ysbrydol ddod. Mae'n bryd clywed sŵn moli Duw, mae'n bryd gweld ffydd yn blodeuo, mae'n bryd gweld golau'r Efengyl yn disgleirio, mae'n bryd teimlo bywyd yn dod yn ôl i'r eglwys. Ond ydan ni'n dyheu am weld hyn oll yn digwydd? Ydan ni'n awyddus i'w weld Ef yn symud y niwl a'r oerni a'r tywyllwch? Ydan ni'n barod i weddio, a gofyn i Dduw weithio mewn nerth yn ein gwlad? Diolchwn am ambell arwydd y gall y gwanwyn fod ar ddod. Mae llawer yn dechrau blino ar y marweidd-dra ysbrydol, a rhai yn dod i gredu'r Efengyl o'r newydd. Gweddiwn y daw y gwanwyn llawn yn fuan iawn.

JOHN PRITCHARD

## CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

**Llongyfarchiadau** i Kevin, Bryn Hyfryd, ar achlysur ei ben-blwydd yn 21 oed.

**Priodas Arian:** Llongyfarchiadau i Vera a Dafydd Price, Tan-y-graig, ar achlysur dathlu eu Priodas Arian ar Medi 23, hefyd i Marjorie a Ted Roberts, Bod Gwilym ar Hydref 21. **Yn yr Ysbyty:** Anfonwn ein cofion gan dymuno gwellhad buan i Mrs K. Watkins, Dolwen, sydd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, hefyd Mrs L. Roberts, Penrallt, yn Ysbyty Gwynedd.

**Adref o'r ysbyty:** Dymunwn wellhad buan i Mr John C. Jones, 21 Dôl Afon, ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

**Cydymdeimlad:** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Marella, merch Mr a Mrs John C. Jones, 21 Dôl Afon, a'r plant Cemlyn, Kelvin a Karen, yn eu profedigaeth lem o golli priod a thad, Gareth Jones yn 42 oed.

**Diolchgarwch** Eglwys Sant Gabriel: Cynhaliwyd gŵyl Ddiolchgarwch ar 11 a 12 Hydref. Ar fore Sul bu gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn Eglwys y Plwyf gan ein Rheithor y Parch. Peter Pritchard; nos sul, yn Eglwys Sant Gabriel caed y Gosber a'r pregethwr gwadd oedd y Parch. Len Arridge, Bangor.

Fore Llun, am 10, gweinyddwyd y Cymun Bendigaid yn Eglwys Sant Gabriel gan ein Rheithor, ac ar nos Lun yn Eglwys Llanrug cafwyd y Gosber o dan arweiniad Mrs Monica Morris. Yr organydd yn y gwasanaethau oedd Mr John Morris, Llanrug, a diolch iddo am ei waith. Dymuna'r Rheithor, y Parch. Peter Pritchard, ddiolch i bawb am addurno'r Eglwys ac am y rhoddion o lysiau, ffrwythau a blodau a dderbyniwyd.

**Clwb Pobl y Cwm:** Wedi gwyliau'r haf ail agorwyd y Clwb ar 24 Medi a chroesawyd yr aelodau i dymor newydd gan Mr Llew Hughes, y llywydd. Methodd rhai o'r ffyddloniaid a bod yn bresennol oherwydd gwaeledd, ac eraill oherwydd galwadau teuluol.

Cafwyd egwyl o Bingo gyda Mrs Enid Price yn galw, a dechreuwyd trafod rhaglen y tymor. Rhoddwyd y baned a'r raffl gan Mrs K. Watkins a Mrs G. Chick. Mrs E. Price enillodd y raffl, ond a'i dychwelodd tuag at elw'r Clwb.

Ar 8 Hydref edrychwn ymlaen at

glywed Mrs K. Watkins yn rhoi hanes ei thaith am dair wythnos i Ganada ac Efrog Newydd, ond yn anffodus cymerwyd hi yn wael dridiau ynghynt. Dymunwn lwyr wellhad iddi, a hyderwn y cawn y sgwrs yn y dyfodol, ein cofion cynnes ati hi, ac â Mr R. H. Parry sydd yn cwyno ers tro — brysiwch wella eich dau.

Cafwyd sgwrs fach i lanw'r bwllch gan Mrs G. Chick a phawb yn rhoi ei bwt i mewn. Y gwestwagedd oedd Mrs E. Hughes a Miss E. Hughes, hwy hefyd roddodd y raffl a'r enillydd oedd Miss M. Davies.

**Clwb Ieuencid:** Y mae y Clwb bellach wedi agor ar gyfer pobl ifanc y pentref. Y mae yr aelodau eisoes wrthi'n brysyr yn trefnu rhaglen am y tymor, ac fe fydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

**Diolch:** Dymuna Dafydd a Vera Price, Tan y Graig, ddatgan eu diolch i'w ffrindiau a'r teul oll am yr holl anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd yn ystod dathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

**Ysgol Gymuned Cwm-y-glo:** Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol rhieni a llywodraethwyr yr ysgol ar 21 Medi. Trafodwyd adroddiad y prifathro am 1991-92. Mae corff llywodraethol newydd mewn grym bellach, sef Mr Brian Jones, Dymuna'r Rheithor, y Parch. Peter Pritchard, ddiolch o galon i bawb am y rhoddion at y rafflau ac am bob cefnogaeth i wneud y noson yn un mor llwyddiannus.

Cadeirydd: Mrs Margaret Williams, Clerc; Mr John Selwyn Williams, Mrs Iris Rowlands, Mrs Avril Jones, Mrs Dorothy Jones, Mrs Rita Williams a Mrs Mair Hughes. Anfonwn ein cofion a'n diolch diffuant i Mr Len Parry am ei wasanaeth gwerthfawr ac ymroddedig fel llywodraethwr ar hyd y blynyddoedd.

Carem ddiolch i'r Cyngor Cymuned, cwmniau a phobl busnes lleol am eu cyfraniadau hael tuag at ein apêl i adnewyddu y ffens o gwmpas buarth yr ysgol. Gobeithir dechrau ar y gwaith yn fuan iawn rŵan.

Cyfarfu Cymdeithas Rhieni Athrawon ar 22 Medi. Y swyddogion newydd yw Mrs Karen Williams, cadeirydd; Mrs Avril Jones, ysgrifennydd; a Mrs Jill Callaghan, trysorydd. Trefnwyd nifer o nosweithiau cymdeithasol ar gyfer y

tymor. Eisoes cynhaliwyd Ffair Lyfrau a gwerthwyd gwerth dros £250 o lyfrau. Diolch i bawb a gefnogodd yr ymgyrch.

Yn fuan iawn fe fyddwn yn gwerthu cardiau Nadolig arbennig a gynlluniwyd gan Kevin Williams a Kimberley Allen. Bydd modd prynu rhain yn yr ysgol. Ar nos Wener, 27 Tachwedd, am 7 o'r gloch, cynhelir Bingo yn yr ysgol. Croesawn unrhyw roddion tuag at y gwobrau.

Rydym yn falch iawn fod Mrs Alwen Jones wedi gwella erbyn hyn a'i bod yn ôl gyda ni. Diolch i Mrs Sian Patchett am ofalu am ei dosbarth yn ystod ei habsenoldeb.

Croeso mawr atom i Twm Sion Roberts a'i chwaer Branwen Angharad. Maent wedi cartrefu ym Mrynrefail a gobeithio y byddant yn hapus iawn yn ein plith. Ond mae'n ddrwg gennym orfod ffarwelio â merch fach o'r dosbarth babanod ar ôl dim ond chwech wythnos yn yr ysgol. Mae Liza Merry yn symud i fyw i Amlwch. Dymunwn yn dda iddi hi a'i theulu yn eu cartref newydd.

Llongyfarchiadau i Ben Chadwick, blwyddyn 5, am ennill tocyn gwerth £100 o siop Halfords. Bu'r heddlu yn marcio côd post ar feiciau plant holl ysgolion Arfon ac enw Ben ddaeth allan o'r het. Cafodd brynhawn arbennig yng Ngwesty Seiont. Bellach mae gan Ben feic newydd sbon yn mynd o gwmpas y pentref. Pob hwyl a phob gofal arno!

Enillwyr Clwb Cyfeillion yr Ysgol am fis Medi oedd Mr Gwilym Williams, Bryn, a Caren Williams, Glanbogelyn. Mae croeso i unrhyw un ymaelodi â'r clwb — yn blant, rhieni, ffrindiau neu berthnasau. Cewch un rhif am £1 y mis a rhydd hyn gyfle i chwi ennill ac ar yr un pryd hybu cronfa'r ysgol. Os am ymuno cysylltwch â'r ysgol.

**Bingo:** Cynhaliwyd Bingo yn yr Ysgol Gymuned, a'r elw tuag at Eglwys Sant Gabriel, ar nos Fawrth, 13 Hydref. Cafwyd noson eitha da. Enillwyr y rafflau oedd — raffl mewnol: 1, Margaret Williams, Nant Forgan; 2, Marjorie Roberts; 3, Veronica Williams, Glanbogelyn; 4, Marjorie Roberts; 5, Sarah Denny, Glasfryn; 6, Keith Williams, Bryn; 7, Margaret Williams, Nant Forgan; 8, Marjorie Roberts; 9, Veronica Williams, Glanbogelyn; 10, Carys Williams, Bryn; 11, Denny, Glasfryn; 12, H. M. Roberts, 1 Bryn Gro. Raffl ar wahân: 1, Keith Williams, Bryn; 2, Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd. Raffl fawr: 1, Mr Cepas, 2 Maes Gerddi; 2, 3 Craig-y-don; 3, Mrs Jones, Seiont House; 4, Karah, 2 Pool Street; 5, Nancy Jones, Llanberis; 6, Val Jones, Pant-y-mynydd; 7, Wanda Davidson, Bwlch; 8, Christopher Jones, Fron Gadair; 9, Carys Williams, Bryn.

**Newid Llechi am Aur:** Pleser oedd gwrandio sgwrs Mr Michael Owen ar raglen Radio 'Manylu' yn ddiweddar. Un o deulu Llwyncoed yw Mr Owen a ymfudodd, ynghyd â'i deulu, i Pilgrim's Rest, De Affrica pan yn ddeunaw oed yn 1923. Bu'n gweithio yn chwarel Dinorwig am gyfnod cyn ymadael â'r ardal. Disgrifiodd yn ei Gymraeg gloyw y gymhariaeth rhwng chwarel llechi a chloddio am aur. Mewn ateb i'r holwraig ni ddymunai ail sefydlu yng Nghymru oherwydd bod hinsawdd Affrica yn fwy derbyniol, ond roedd atgofion o'r dyddiau cynnar yn y Cwm yn dwyn hiraeth ar brydiau.

### SIOP

Nwyddau Gardd  
Cynnyrch Cartref  
Crefftwaith



CANOLFAN  
GARDDIO  
Blodau, Grug  
Alpau, Perthi

## ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi  
Cynnal a Chadw  
Plannu Coed

Meinciau Concridd a Phren  
Planters Concridd a Phren  
Corachod

## BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol  
Glanmoelyn

### LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)  
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,  
Drysau, Grisau neu  
unrhyw fath o gynnyrch  
coed. Y coed meddal wedi  
derbyn triniaeth arbennig i  
wneud iddynt bara.



# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

**Urdd Bantref:** Cynhelir cyfarfodydd bob nos Fawrth yn yr Ysgol Gymuned o 6 tan 7 o'r gloch. Bydd amrywiol weithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer y plant. Tâl aelodaeth am y flwyddyn fydd £2.50. Bydd diod oren a chreision ar werth am 25c. Estynnir croeso cynnes i unrhyw blentyn o 6 oed i fyny i ymaelodi. Buasai'r pwyllgor yn dra diolchgar am unrhyw syniadau ar gyfer gweithgareddau. Cysyllter â Mrs Elinor Williams, ar Llanberis 870568, neu Mrs Elizabeth Jones, Llanberis 872421, os gwelwch yn dda.

**Yr Ysgol Feithrin:** Mae 'Cledwyn y Ddraig' yn aelod pwysig iawn o'r Cylch y tymor hwn. Mae Cledwyn yn gymeriad sy'n cyflwyno lechyd i'r plant o dan 5 oed drwy gyfrwng gwahanol weithgareddau o ymarfer corff i goginio yn y gegin. Gan fod Cledwyn yn byw mewn castell fe aeth aelodau'r Cylch i lawr i Gastell Caernarfon, cyn hanner tymor. Diolchir i'r rhieni am eu cefnogaeth. Cafwyd bore diddorol a hwyliog er gwaetha'r glaw. Bydd y Cylch Meithrin yn dal i gyfarfod yn **Ysgol Tan-y-coed**. Bwriedir cyn symud i'r Ysgol Gymuned newydd rhoi cyfle i'r pentrefwyr ymuno â'r aelodau ifanc am banded yng Nghaffi Cledwyn.

**Cwrs Wlpan:** I gydredeg ag amser y Cylch Meithrin bydd Cwrs Wlpan yn cychwyn i rieni ac eraill o'r pentref sy'n awyddus i ddysgu'r Gymraeg. Cynhelir y dosbarthiadau yn yr Ystafell Gymunedol yn yr Ysgol Newydd.

**Gwellhad:** Gyda chwymp y dail a chopar Wyddfa yn wyn daeth cyfle i'r annwyd a'r fflw ymosod ar nifer ohonom. Dymunir adferiad iechyd buan i'r rhai sy'n sâl yn y pentref. Anfonir ein cofion annwylaf at Mr Griffith Williams, Llys Myfyr, wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

**Diolch:** Dymuna Mr Griffith R. Williams, Llys Myfyr, ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, galwadau ffôn ac am ymweld ag ef tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr i bawb.

**Llongyfarchiadau:** Llongyferchir Catherine Mary Griffith am ennill clod mewn arholiad Gradd 4 mewn canu, gyda Ysgol Cerdd a Drama, Guildhall, yn ddiweddar.

**Genedigaeth:** Ar Hydref 20, ganwyd merch fach i 'Biodferch y Flwyddyn',

sedf Nia (Parry gynt). Llongyfarchiadau i chwi Nia a William, ar enedigaeth eich merch, a llongyfarchwn Myfanwy a Richard Parry ar ddod yn nain a thaid unwaith eto — pump o wyresau annwyl rwan.

**Profedigaeth:** Ar Fedi 25 yng Nghartref Bron Eryri, Llanberis (gynt o 9 Bryn Tirion) bu farw Mrs Katie Jones, priod y diweddar Owen Jones a mam annwyl Gwyneth, lorwerth a Victor. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â chwi fel teulu o golli mam a nain garedig.

Hydref 1, yn dawel yn ei gartref, Perthi Isaf, bu farw John Daniel Jones ac yntau ond 54 oed. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'r teulu oll.

Anfonir ein cydymdeimlad ag lan a'r teulu oll ar farwolaeth sydyn Mr Glyn Harris, Tŷ Gwyn.

**Diolch:** Dymuna teulu'r ddiweddar Katie Jones ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli un mor annwyl. Diolchir am y llu cardiau a'r rhoddion o £110 tuag at Gartref Bron Eryri, Llanberis.

**18 oed:** Pob dymuniad da a phob bendith i Rebecca Thomas ac Yvonne Orrock ar achlysur dathlu eu pen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. **Ysgol Sul Bosra:** Gyda'r Gymdeithas Oxfam yn dathlu ei phen-blwydd yn 50 oed yn ystod Hydref 1992, bu aelodau'r Ysgol Sul yn diolch ac yn olrhain hanes y Gymdeithas yn eu gwasanaeth Diolchgarwch ar bnawn Sul, 18 Hydref. Cymerwyd rhan gan yr holl aelodau o ddwyflwydd oed i 16 oed, ynghyd â'r holl athrawon. Diolchir i bob un a gymrodd ran ac am adrodd hanes Cymdeithas mor werthfawr.

**Pwyllgor Neuadd Bantref:** Enillwyd Clwb Cant mis Medi — Carolyn Roberts, Pen Dinas Mawr; Elizabeth Bellis, Tŷ Newydd; Joy Rees, Siop Gron. Tynnir Clwb Cant Hydref yn Noson Agoriadol y Neuadd Gymuned ar nos Lun, Hydref 26.

Y mae wyth mlynedd wedi gwibio heibio ers y cyfarfod cyhoeddus cyntaf hwnnw yn Ysgol Tan-y-coed ar Medi 10fed, 1984. Daeth tua 30 o bentrefwyr ynghyd i drafod neuadd i'r pentref. Rhoddwyd pedwar cynnig gerbron a phenderfynwyd ar gasglu arian gyda'r bwriad o rannu neuadd yr Ysgol Newydd a oedd ar y gweill

ac a fyddai, yn ôl Mr Geraint Elis, yn cael ei gwireddu ymhenn tua saith mlynedd. Bu'r casglu a chodi arian yn waith caled ond pleserus er hynny. Cynhaliwyd nifer fawr o weithgareddau a ddaeth a'r pentrefwyr at ei gilydd. Sefydlwyd y Clwb Cant a mawr yw ein diolch fel pwyllgor i'r ffyddloniaid hyn.

Daeth yr AWR FAWR! Fe wireddwyd ein breuddwyd ac ar fore Llun, Hydref 26, camodd y plant a'r staff i ysgol foethus na welir ei thebyg yng Ngwynedd nac yng Nghymru rwy'n siwr.

Agorwyd y drysau i'r holl bentrefwyr a ffrindiau nos Lun, a chafodd pawb y cyfle i weld y Neuadd a'r Ystafell Gymuned a'r dosbarthiadau i gyd. Dim ond edmygedd a chanmoliaeth oedd ar wefusau pawb uwchben eu paned. Bydd yr Urdd, Clwb Ieuencid, Cylch Meithrin a chwrs Wlpan yn gwneud

defnydd ohoni yn ddiymdroi a gobeithir cynnal amrywiol weithgareddau yma i'r dyfodol. Dymunir pob bendith i blant a staff yr ysgol a phob bendith i'r cymdeithasau a wna ddefnydd o'r neuadd a'r ystafell gymuned. Gweddus yw dweud, 'Cydd ddyheu a'i mynnodd hi'.

**Noson Calangaeaf:** nos Wener, Hydref 30, cynhelir Noson Calangaeaf yn Neuadd, Ysgol Gymuned am 6. Y beirniad fydd Mrs Rita Williams, Caernarfon. Bydd amrywiol gystadlaethau ynghyd â phaned, cŵn poeth a raffl. Mynediad 50c i oedolion a 25c i blant. Croeso cynnes i bawb.

**Plygu'r Eco:** Daeth nifer o ffrindiau i Neuadd Eglwys Santes Helen i blygu'r Eco ar nos lau, 1 Hydref. Diolchir i bob un ohonoch ac i swyddogion yr Eglwys am roi benthyg y Neuadd inni.

**Ysgol Tan-y-coed:** Fe gofiwch i ni ddathlu cau Ysgol Tan-y-coed yn swyddogol cyn gwyliau'r haf gyda'n cynhyrchiad o 'Sioe Noa'. Cyfraniad sylweddol i lwyddiant y cynhyrchiad yma oedd gwisgoedd arbennig y plant gan Mrs Gwen Roberts, nain Rachel a Jenny, a'r set ardderchog ar ffurf darlun o Arch Noa gan Mr Islwyn Williams, tad Wena ac Iwan.

Dydd Llun a dydd Mawrth, Hydref 12 a 13, oedd ein dau ddiwrnod olaf yn Ysgol Tan-y-coed. Treuliodd Mr Islwyn Jones fore dydd Llun yn yr ysgol yn recordio gweithgareddau'r plant ar ffilm, gan fod cau ysgol yn ddigwyddiad pwysig a hanesyddol. Rhyw ddiwrnod fe fydd y cofnod

pwysig yma yn cael ei gludo i Archifdy Caernarfon er budd haneswyr y dyfodol.

Ar ein diwrnod olaf yn yr hen ysgol aeth yr Uned lau i Oriel Llanberis i weld arddangosfa 'O Law i Law' o lyfr T. Rowland Hughes. Cawsom gyfle i weld portread byw a diddorol iawn o waith awdur lleol. Yr un diwrnod daeth Miss Nerys Jones, myfyriwr o'r Coleg Normal, i ymweld â ni. Fe fydd Miss Jones yn treulio cyfnod o ymarfer dysgu gyda'r plant hynaf ar ôl y Diolchgarwch.

I ddathlu ein dyddiau olaf yn yr hen ysgol ysgrifennodd Mr Rol Williams gân i'r plant ar dôn 'Cân yr Ysgol' gan Dafydd Iwan. O edrych ymlaen i

## Y DIWRNOD MAWR



Y Cynghorydd Pat Larsen, Mr Carey-Williams y pensaer a Mr Robert Humphreys y prifathro yng nghyntedd yr Ysgol Newydd.



Y banded gyntaf o gannoedd! Rhai o drigolion y pentref ar achlysur agor yr Adain Gymuned.

♥ Gemi ♥ Bedyddio ♥ Iŵed ♥ Priodas ♥

✱ Aichysur arbennig? ✱  
✱ Anrheg unigryw? ✱  
Beth am un o sampleri

**PWYTHAU CAIN**

✱ Cynllunir pob samplwr yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

✱ Hefyd gwniadwaith o bob math gweud dillad, newidiadau, ffenni, a.c.y.b.

✱ Cysylltiwch â  
**MARY ELLIOTT**  
Llanberis 872438

Cartref Newydd ♥ Darnau o farddoniaeth

Dysgwch yrru'r car gydag  
**Y.Y.O.**  
**YSGOL YRRU OFALUS**

- \* Gwasanaeth 7 diwrnod
- \* O ddrws i ddrws
- \* Control Deuol

**D L**  
**PRITCHARD**  
43 Glanffynnon  
**LLANRUG**  
**CAERNARFON 5112**  
Cymeradwyir gan yr Adran  
Drafnidiaeth



ymgartrefu yn yr ysgol newydd aeth Mr Tony Eliott ati i ysgrifennu cân am Ysgol Gymuned Penisarwaun, fel y gelwir yr ysgol newydd. Ar dôn un o'r caneuon o'r cynhyrchiad 'Joseph and the Amazing Technicolour Dreamcoat' y cenir y gân yma. Ein diolchiadau i Mr Williams ac i Mr Eliott am eu caredigrwydd.

Cafodd y plant dridiau o wyliau ychwanegol at eu gwylliau Diolchgarwch. Yn ysgod y tridiau gwyllt a phrysur yma cawsom gyfle i fudo o'r hen ysgol i'r adeilad newydd gyda chymorth Pritchard Bros.

Er bod nifer wedi mynegi tristwch ar achlysur cau Ysgol Tan-y-coed mae'n bwysig cofio mai edrych yn ein blaenau y dylem oll a mwynhau y cyfle o agor cyfnod newydd ym mhrofiadau'r plant yn Ysgol Gymuned Penisarwaun.

(Derbyniwyd y nodiadau canlynol gan Mrs M. G. Williams (Bethel erbyn hyn). Croesawir unrhyw atgofion eraill i'w cyhoeddi yn y papur.)

## Ysgol Tan-y-Coed Penisarwaun

Gan fy mod yn un o ddisgyblion hynaf Ysgol Penisarwaun, sydd ar fin cau, penderfynais anfon gair i'r Eco gan obeithio y bydd yn dderbyniol.

Siom fawr iawn i mi ac eraill oedd methiant Rol Williams, Waunfawr (Brynrefail gynt) i dderbyn digon o enwau iddo fynd ymlaen i drefnu aduniad o'r cyn ddisgyblion. Gresyn am hyn, ond, diolch yn fawr i Rol am y syniad a'i ymdrech. Beth oedd y rheswm am hyn — ai anghofio, difaterwch, dim diddordeb, neu dim eisiau cofio'r hen amser?

Buasai wedi bod yn ddifyr a braf cael treulio awr neu ddwy fin nos uwchben paned (neu rywbeth cryfach!) neu swper ysgafn mewn man canolig. Gwrando sgwrs fer gan hwn neu hwn, stori, neu gân. Yn sicr buasai hiraeth, colli ambell ddeigryn, ond mwy o lawer o hwyl, chwerthin a hiwmor iach, yn enwedig os buasai ambell un yno.

Pan ddathlwyd canmlwyddiant Capel y Glasgoed yn 1961 fe gofia llawer am y ddwy noson o ddathlu a gafwyd — yn capel yn fwy nag orlawn. Anerchiadau gwyth gan rai o'r cyn-aelodau, ac yna gwledd ardderchog yn y Festri yn dilyn. Sôn am atgofion a chwerthin, rhai yn petruso codi oddi wrth y byrddau i fynd adref i'w cartrefi.

Yr ail noson dwy bregeth wych ac eto gwledd. Credaf (ond nid yn hollol siwr) mai dau yn unig o'r siaradwyr sydd yn fyw heddiw, ac un Gweinidog, y Parch O. R. Parry; — y diweddar Dei Pritchard oedd y llall. Ni chofiaf y pregethau ar wahân fod O. R. Parry wedi sôn am rhyw 'dresal' ar ei bregeth.

Oni fuasai rhywbeth tebyg wedi bod yn braf, cwrdd a hen ffrindiau ysgol a chofio, wrth gwrs, ni wn beth oedd patrwm Rol o'i noson i fod.

Dathlwyd canmlwyddiant yr ysgol, ond yn anffodus ychydig iawn o sylw a gafodd yr amgylchiad — siaradwyr dieithr na wyddent nemor ddim am orffennol yr hen ysgol a dim cyfarfyddiad ar ôl i gofio, er ei fod yr adeg honno yn amser caled ar y teuluoedd. O bosib buasai yr aduniad wedi lleddfu ychydig ar y graith honno, canys craith a arhosodd am beth amser oedd.

Cofiaf fy nhad yn dweud lawer gwaith — pan ddaeth sôn am

## CÂN YR YSGOL NEWYDD

O ben draw'r Waun, i dai Bryntirion  
O waelod Stable' i Frynhyfryd draw  
O'r Racca bell, ac o Fryn Eglwys  
Holl blant y pentref, cerddwn law yn llaw.

Cawn ddod ynghyd i'n hysgol newydd  
Un hardd ysblennydd yw ein hysgol ni,  
Ac yma 'nawr fe glywch ein lleisiau  
Yn canu'n llawen trwy ei drysau hi.

### Cytgan:

Plant y fro mewn hwyl a gwaith  
A phawb yn diolch am y ffaith  
Bod ysgol newydd heddiw'n agor yn ein  
pentref ni;

Ac yn Gymraeg y dathlwn ninnau  
Nes deffro'r brynau gyda'n canu llon,  
Gan laenhau mai iaith ein tadau  
Fydd iaith ein chwarae yn yr ysgol hon.

Croeso i'n hysgol ni  
Ymunwch yn ein cân  
Hon yw ein hysgol ni,  
A diolch yw ein cân.

Tony Elliot



Rhai o'r rhieni yn cael eu golwg gyntaf ar ystafelloedd dosbarth yr Ysgol Newydd.

er hynny, roedd pawb bron yn mwynhau'r cinio sal, ond disgwyl, ac edrych ymlaen yn eiddgar am y Swper Chwarel, pan ddoi'r dynwn o'i gwaith. Tatws popty a phwddin reis, neu benog picl o sio Anti Riwith.

Yn 1924-25 adeiladwyd Ysgol Ganol Llanrug felly ar wahân i'r rhai oedd yn ymadael a'r ysgol yn 14 oed i weithio yn y chwarel, fferm, neu weini, rhaid fu i mi, a rhai o'r un oed a mi symud, ie, newid ysgol — i un fwy ac yn fwy modern, ond bu cryn hiraeth ar ôl ysgol ein babandod. Ni chofiaf yr amser, na'r ffordd o symud, ond, mae un ieuegach o sbel na mi, sef John Owen, Penrhyn Bach, yn cofio'r achlysur pwysig yn iawn medda fo.

Pan ymddeolodd G. E. Jones a'i briod i fyw i Lanrug daeth ysgolfeistr newydd — Mr Emyr Thomas — y mab fu yn ddisgybl iddo fo — eto bu disgleirdeb ymysg y disgyblion. Mae ei briod, Mrs Alice Thomas, a'i ferch Margaret, a'i fab Elfyn Thomas, a fu yn brifathro Ysgol Brynrefail, Llanrug, yn fyw heddiw, ac yn sicr mae

ganddynt hwy atgofion melys a chwerw.

Ni fûm i yn Ysgol Tan-y-coed mewn dim math o gyfarfod ers blynyddoedd bellach mae newidiadau wedi digwydd, ac yn y llun a welais mae'r adeilad wedi newid ei ffurf.

Mae dyddiau Ysgol Tan-y-coed yn brysur ddirwyn i ben ac felly symudiad eto o'r hen ysgol. Rhaid cyfaddef fod meddwl fod drysau Capel y Glasgoed, a drysau yr hen ysgol ar gau am byth yn peri tristwch i mi, a llawer erail mae'n siwr. Ond er hyn — dymuniadau gorau i'r prifathro, y staff i gyd, ac wrth gwrs yr hen blant bach, pan yn symud i'w hysgol newydd fodern yn y pentref, gan obeithio y clywn eto am gewri yn codi ac yn dod a chlod i'r pentref a'r ardal.

Mae'n siwr rhyw ddydd y bydd rhai ohonynt, fel finau, yn dweud hanes y symud wrth eu plant a phlant eu plant. Hir oes i bob un ohonynt.

Hwyl fawr a chofion.

M. G. WILLIAMS (Bethel)

## Newyddion Llanberis (parhad)

### Undeb y Mamau Eglwys St. Padarn

a St. Peris: Cynhaliwyd cyfarfod o Undeb y Mamau ddydd Mawrth, 6ed Hydref, yn Festri Eglwys Sant Padarn. Arweinwyd yn y gwasanaeth dechreuol gan Mrs Dilys Phillips. Y siaradwraig wadd oedd Mrs Hannah Jones, Tawel Lan, Llanberis. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddi ar y grefft o grosio, ac arddangosodd Mrs Jones beth o'i gwaith, cynnyrch blynyddoedd. Yn dilyn cynhaliwyd pwyllgor yr Undeb pryd y darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf. Cydymdeimlwyd â Miss Glenys Parry, Mr a Mrs Bob Williams a Mrs Nesta Roberts a'r teulu yn eu profedigaethau. Dymunwyd adferiad llwyr a buan i Mrs Nellie Roberts, Glanrafon, Nant Peris a Mrs Arfon Evans, Derlwyn, Llanberis. Y gwestwraig oedd Mrs Hugh Hughes, Mrs Vember Cheesman, Mrs Clara Roberts. Diolchwyd iddynt ac i Mrs Hannah Jones gan Mrs M. Lennon a Mrs H. W. Williams.

## Newyddion Llanrug (parhad)

Merched y Wawr, Llanrug: Bu cyfarfod o'r gangen yn yr Ysgol Gynradd ar nos Fawrth, Hydref 13.

Estynnodd y llywydd, Nan Humphreys, groeso i'r aelodau, ac yn eu plith Mrs Jennie Williams wedi dychwelyd ar ôl gwaledd. Diolchodd i'r aelodau a fu o amgylch yn casglu i'r henoed.

Y wraig wadd oedd Nest Thomas, Swyddog Datblygu Amgueddfeydd i Gyngor Sir Gwynedd. Rhoddodd adroddiad diddorol a chyflawn o wahanol agweddau o'i gwaith gan gynnwys hanes rhai o'r safleoedd, megis castell Biwmares, Amgueddfa Lloyd George a hefyd hanes sefydlu Amgueddfa Iddewig ym Mangor. Diolchwyd iddi gan Phyllis Ellis.

Yn gofalu am y baned oedd Helen, Julie a Sioned a diolchwyd iddynt gan Menna Williams. Enillydd y raffl oedd Carys Jones.

Cyfarfod ychwanegol i ymweld â Theatr Gwynedd yw'r nesaf ar Hydref 27, yna disgwylir cael noson ar 'Gemwaith' yng nghwmni Miriam Jones, Caernarfon, yn yr Ysgol Gynradd ar Tachwedd 10fed.

## CLWB ERYRI

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Clwb am y tymor newydd yng Ngwesty'r Gwynedd Llanberis o dan lywyddiaeth is-lywydd y Clwb am eleni, sef Mr Eirwyn Jones. Anfonwyd cofion at ddau o aelodau'r Clwb sydd mewn gwaledd, sef y Mri W. Iolen Hughes ac R. H. Parry. Traddodwyd yr anerchiad gan lywydd y Clwb am eleni, y Parchg Gwynfor Williams, a rhoddodd inni

hanes taith Mari Jones o Fryn-crug i'r Bala ac a ddangosodd, trwy gyfrwng sleidiau lliw, y daith fel ag y mae heddiw.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad gan Mr John H. Hughes. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Wener, 6 Tachwedd, pryd y disgwylir Mr R. Williams i annerch ar destun o'i ddewis o dan lywyddiaeth Mr Brython Jones am y noson.



## DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

**Cyngor Eglwys Deiniole:** Yn festri Capel Ebeneser ar Tachwedd 9, am 7 o'r gloch, fe geir anerchiad gan Angharad Williams am ei chenhadaeth i Romania.

**Yr Ysgol Feithrin:** Cynhelir noson Tân Gwylt, am 6.30 o'r gloch, ar nos lau, Tachwedd 5. Pris mynediad fydd £1 a 50c i blant. Bydd cŵn poeth, cawl, sudd oren, te a choffi ar werth yno. Croeso cynnes i bawb.

**Clwb Elidir:** Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r tymor ar Medi 22 pryd y croesawyd yr aelodau yn ôl wedi gwyliau'r haf gan y llywydd, Mr Eirlys Ll. Jones. Yr oedd yn chwith gweld un lle gwag, sef un Mrs Laura Williams sydd wedi bod yn ffyddlon iawn ar hyd y blynyddoedd ond sydd bellach wedi symud i Gaernarfon. Yr ydym i gyd yn dymuno'n dda iddi yn ei chartref newydd. Yr oeddem yn falch iawn hefyd o glywed bod Mrs Jennie Williams yn gwella wedi cyfnod yn yr ysbyty — brysia fendio Jennie, yr oeddem i gyd yn dy golli. Gwesteion y te oedd Mrs Alwen Jones, Mrs Megan P. Morris a Mrs Eirlys Ll. Jones. Rhoddwyd y wobrlwcus gan Mrs Alwen Jones a'r enillydd oedd Mrs Pat Evans.

**Undeb y Mamau:** Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys ar nos Fercher, 7 Hydref, dan lywyddiaeth Mrs Eileen Hughes. Bu'n noson bleserus dros ben yng nghwmni Mrs Turner o Fangor yn arddangos dulliau o drefnu blodau. Diolchwyd iddi gan Mrs Pat Hayers a darparwyd y te gan Mrs Gracie Tate a Mrs Gwyneth Price. Enillydd y raffl oedd Mrs Nancy Price.

**Merched y Wawr:** Cynhaliwyd cyfarfod misol y gangen yn y Caban ar nos Lun, 19 Hydref. Treuliwyd noson ddifyr yng nghwmni Alwyn a Sarah Jones, Racca Cottage, yn arddangos trefniant blodau sych a ffres. Rhodwyd rhodd o'r trefniant i'r gangen, a derbyniodd yr aelod hynaf, sef Mrs Ellen Williams, Tai Bwthyn, y blodau ffres a Mrs Jane Jones, Rhydfadog y blodau sych. Diolchwyd i'r ddau gan Mrs Alice Griffith, Dinorwig. Rhoddwyd y te gan Mrs Buddug Jones, Mrs Ellen Williams a Mrs Jane C. Jones.

**Clwb Snwcer:** Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth y Noson Goffi, a gynhaliwyd yn ddiweddar, mor llwyddiannus. Diolch am y rhoddion hael at y raffl,

gwobrau a nwyddau i'r stondinau. Diolch i'r merched am weithio mor ddiwyd yn y gegin ac wrth y stondinau. Diolch arbennig i chwi i gyd am ddod i'n cefnogi. Cyfanswm y derbyniadau oedd £373. Diolch yn fawr iawn i bawb.

**Diolchgarwch:** Roedd eglwys y pentref yn brysur yn cynnal eu gwyl Ddiolchgarwch ar ddydd Sul, Hydref 18. Cafwyd cyfarfodydd yn y gwahanol addoldai gan gynnwys gwasanaeth plant yr Ysgol Sul Unedig a gynhaliwyd yn Ebeneser yn y prynhawn.

### Diolchiadau:

Dymuna Mrs Dilys Williams, 61 Pentre Helen, ddiolch yn fawr i'w theulu, cymdogion a ffrindiau oll am y caredigrwydd tuag ati yn dilyn y ddamwain a gafodd yn ddiweddar. Hefyd am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac anrhegion. Diolch hefyd i'r meddygon a'r nyrsys yn Ysbyty Gwynedd am eu gofal.

Dymuna teulu y ddiweddar Myfanwy Jones, 2 Bro Deiniol, ddiolch yn fawr iawn am yr holl cydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam a'nain annwyl. Diolch yn arbennig am y rhoddion tuag at Feddygfa Deiniolen.

Dymuna Marella, Cemlyn, Kelvin a Karen ddiolch o galon i'r teulu i gyd a phobl Deiniolen a'r cylch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt trwy gardiau, ymweliadau a galwadau ffôn yn eu profedigaeth o golli gŵr annwyl iawn a thad cariadus, sef Gareth Wyn, Garnedd. Diolch yn arbennig iawn i'r Parch. Gwynfor Williams a'r Parch. John Pritchard, i'r organyddes Mrs Margaret Griffiths. Ein diolch diffuant i'r meddygon teulu a'r staff yn Waunfawr, a'r nyrsys lleol. I'r merched yn y tŷ, sef Mrs Elinor Hughes, Heddwen Pritchard a Ciss Rowlands. Diolchir i Mr Myrddin Pritchard, Llanberis, am y trefniadau trylwyr.

### PLAID CYMRU

### FFAIR NADOLIG

### YSGOL GWAUN GYNFI

Nos Wener, Tachwedd 27

am 7 o'r gloch

Bydd Siôn Corn yn galw heibio.

## OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU  
- TRWSIO  
★ Teledu  
★ Fideo  
★ Offer Trydan  
Gwasanaeth  
Ffôn 24 awr  
LLANBERIS 870545

## IEUAN WILLIAMS

### Glanffrwd DEINIOLEN Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

## DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

**Eisteddfod Bentref:** Fel y soniwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Eco cynhelir yr eisteddfod eleni ar **nos Fawrth, 1 Rhagfyr, o 6 o'r gloch ymlaen yn y Ganolfan leol.** Fe ddylai pawb fod wedi derbyn copi o'r testunau a rhaglen yr eisteddfod erbyn hyn. Os nad ydych yna cysylltwch â Glyn Tomos. Edrychwn ymlaen at weld nifer ohonoch yn cystadlu a braf fyddai gweld enwau newydd ymysg y cynigion a ddaw i law. Hwyl ydi'r cyfan yng nghanol tymor y gaeaf. Edrychwn ymlaen at eisteddfod gartrefol a hwyliog braf efo eleni. Cofiwch ddod i gefnogi.

**Dosbarth Nos:** Diolch i Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug, am ddsbarthiadau nos hynod o lwyddiannus yn ystod mis Medi a dechrau Hydref. Ei bwnc eleni oedd hanes lleol ac fe gafwyd oriau o amser difyr yn ei gwmni. Nid oes amheuaeth, mae yn arbenigwr ar ei bwnc ac fe ddangosodd gymaint o waith ymchwil y mae wedi ei wneud dros y blynyddoedd ar hanes y fro. Diolch hefyd i Miss E. W. Jones, Ty'n Fawnog, am drefnu'r cyfan.

**Cymdeithas Lenyddol Undebol:** Erbyn i chwi ddarllen y nodiadau hyn fe fydd y Gymdeithas wedi cynnal ei noson agoriadol. Yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr dyma fydd y rhaglen — nos Fawrth, Tachwedd 10: Dewi Llwyd (BBC); nos lau, Tachwedd 26: Yr Heddwes Alun Bevan (Atal Troseddau); nos lau, Rhagfyr 10: R. Maldwyn Thomas; nos lau, Rhagfyr 17: Canu Carolau. Felly rhaglen iawn ac amrywiol dros ben a'r cyfan am dâl aelodaeth o £1. Cofiwch gefnogi'r Gymdeithas yn ystod y misoedd nesaf.

**Eglwys St. Mair:** Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch llwyddiannus iawn ar brynawn Sul, 18 Hydref. Roedd yr eglwys wedi ei haddurno yn hardd gyda ffrwythau, llysiau a blodau o bob math. Diolch i bawb am eu rhoddion ac i'r merched am addurno'r eglwys. Eleni yr offeiriad gwadd oedd y Parch. Geraint Wyn Edwards (cyn ficer y plwyf), ac fe gafwyd pregeth amserol iawn ganddo. Braf oedd cyfarfod ac

ef a'i briod a'r plant am y tro cyntaf ers blynyddoedd. Diolchir i'r Parch. Tegid Roberts am arwain y gwasanaeth ac i Mrs Gwen Griffith am ei gwaith wrth yr organ. Braf hefyd oedd croesawu yn ôl rhai o hen gyfeillion Eglwys St. Mair i'r oedfa. Mae croeso i chwi ymuno â ni unrhyw adeg. Gwnaed trefniadau i'r ffrwythau a'r llysiau gael eu cyflwyno i breswylwyr Cartref Nyrsio Penisarwaun. Gwyddom bod dau neu dri o'r preswylwyr sydd yno yn dod o Dinorwig ac anfonwn ein cyfarchion iddynt.

Rhestr blodau'r allor am fis Tachwedd yw — 8 a 15: Mrs Annie Thomas, 4 Bro Deiniol. 22-29 Mrs Glenys Jones, 4 Bro Elidir.

Nodyn pwysig arall yw yn cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Plwyfol Eglwysig yn Eglwys Crist Llandinorwig ar nos Fawrth, 3 Tachwedd, am 7.

**Diolch:** Dymuna Rennell Williams, Tan y Fron, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion lu tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i staff Ward Conwy, Ysbyty Gwynedd am eu gofal.

**Ffeithiau Diddorol:** A wyddoch chwi bod dosbarthiadau nos Addysg y Gweithwyr wedi bod yn cael eu cynnal yn Ninorwig yn ddi-dor ers bron i ddeng mlynedd. Tipyn o record. Hefyd bod y bwrdd snwcer sydd yn y Ganolfan wedi bod yno ers ugain mlynedd. Fel y cofiwch fe gyflwynwyd y bwrdd i'r pentref gan Glwb Snwcer Deiniolen yn 1972.

**Swydd Newydd:** Fe benodwyd Glyn Tomos, Pen y Bwlch, i swydd newydd fel swyddog hyfforddiant yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd. Bydd yn symud o'i swydd bresennol ym Mhwlheli i'w swydd newydd yng Nghaernarfon yn ystod yr wythnosau nesaf.

## Cefnogwch ein Hysbysebwr



## THE SEIONT MANOR HOTEL

## LLANRUG

Ffôn: 673366

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.  
I glywed mwy Ffoniwch 673366 a gofynnwch am Maggie

Swper rhamantus i ddau

Cinio hamddenol

Sgwrs hefo ffrindiau

dros baned o goffi

Brecwast, cinio neu

swper busnes

Parti dathlu

Cinio Dydd Sul i'r

teulu

Gwledd brodas

fythgofiadwy

Sauna, nofio, ystafell


ffitwrydd

Ymlacio ym mar y

llyfrgell



# CROESAIR TACHWEDD



## Atebion Croesair Hydref



Do, bu cystadlu brwd iawn y tro hwn gyda 21 o geisiadau i fewn erbyn y dyddiad cau. 'Roedd llawer yn cael trafferth gyda'r enwau modern yma ar rannau cyfrifadurol ond 'CD ROM' yw'r term serch fod rhai pobl mwy gwybodus yn y maes neilltuol yma nag yr wyf i yn honni y buasai RAM yn dderbyniol fel ateb hefyd.

O ystyried hynny, aeth wyth ateb hollol gywir i fewn i'r sach a'r un ffodus i gael ei dynnu allan gyntaf o'r sach honno oedd eiddo lorwerth a Joan Williams, Rhoslan, Sgwâr Uxbridge, Caernarfon. Llongyfarchiadau mawr iddynt a chan nad oes enillydd y mis diwethaf bydd £10 o wobwr ar ei ffordd i Dre'r Cofi cyn bo hir.

Felly, gyda'r wobwr fawr wedi mynd, beth am i chwi roi cais am £5 o wobwr y mis hwn? Anfonwch eich atebion ar frys i sylw lfor G. Efans, Afon Goch, Deiniolen, i gyrraedd erbyn dydd Llun, 16 Tachwedd fan bellaf. Gwnewch eich gorau!

## AR DRAWS

1. Llysieuyn cochaidd (5)
2. Lliw (5)
9. I dero'r hoel (7)
10. Opera sebon Gymreig 'stalwm (5)
11. Sawl un (5)
12. Gwisg nos (5)
13. Hyn yw'r blynyddoedd o'r geni (4,3)
15. Dim llacrywdd (3)
17. — glwt oedd ffrind cysgu plant ers talwm (1,3)
18. Ysguboriau'n nghanolbarth Cymru (6)
19. Dyna pam? (5)
20. Bob amser (6)
22. Dweud pethau cas (4)
24. Un glec (3)
25. A. Emyr neu R. Giggs (7)
26. Mwy nag awel (5)
27. Pysgodyn croen caled (5)
28. Rhyfeddu (5)
29. Yn symud byth a beunydd (7)
30. Profi (5)
31. Diddrwg, didda (3,2)

## I LAWR

2. Yr un cyntaf (6)
3. Dal yn ôl (6)
4. Coch neu Frown (3)
5. Bychanu ar lafar (5)
6. Tŷ'r 'Brodyr Llwydion' (7)
7. Gwen a Mair ac — (4)
8. Ei daenu ar 15 i lawr (6)
12. Lluosog term am fod yn ddiwyro a garw (5)
13. Benyw (5)
14. '— y Gwynt' mewn sillafiad deheuol (5)
15. Brechdan (5)
16. Yn ôl llas y Trych, 'byth' (5)
18. Pa'r un yw hi? Y wraig! (1,4)
19. Beth fu rhwng y ddau ryfel byd (5,2)
21. Rala — (6)
22. Dweud y drefn (6)
23. Sir ar fin diflannu hwyrach (6)
25. Beth a wnaethpwyd i'r Nico (5)
26. Cymorthydd y meistr (4)
28. Dyrmaid rawnwin (3)

## DYDDIAD I'W GOFIO RHAGFYR

- 1 Mawrth. Dinorwig: Eisteddfod y Pentref yn Y Ganolfan am 6.30.

# Dyddiadur y Mis

## TACHWEDD

- 3 Mawrth. Llanrug: Cyfarfod Agoriadol y Gymdeithas Lenyddol, Capel y Rhos, am 7.30. Adloniant gan Barti Awelon y Mynydd.
- Llanberis: Y Gyfeillach yng Nghapel Jerusalem am 2.
- Penisarwaun: Yr Urdd yn yr Ysgol Gymuned o 6-7 o'r gloch.
- 4 Mercher. Llanrug: Plaid Cymru — sgwrs gan Sam Roberts, Caernarfon am 7.30 yn y Sefydliad Coffa. Testun: 'Dringo'.
- 5 Iau. Deiniolen: Noson Tân Gwylt, Ysgol Feithrin am 6.30. Mynediad £1 a 50c i blant — lluniaeth ysgafn.
- Bethel: Noson Tân Gwylt o dan ofal pwyllgor yr Urdd.
- 6 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band.
- 8 Sul. Llanberis: Cyngerdd yn Amgueddfa'r Gogledd am 1.45 - Côr Meibion Dyffryn Peris.
- 9 Llun. Deiniolen: Cyngor Eglwysi, Ebeneser am 7 o'r gloch — sgwrs gan Angharad Williams am ei chenhadaeth i Rwmania.
- 10 Mawrth. Dinorwig: Y Gymdeithas Lenyddol yn Y Ganolfan am 7 — sgwrs gan Dewi Llwyd.
- Llanrug: Merched y Wawr — Gemwaith gyda Miriam Jones.
- 11 Mercher. Bethel: Merched y Wawr, Ysgol Gynradd am 7.30 — Arddangosfa o goginio Fictorianaid gan M. Griffith.
- 13 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band.
- 16 Llun. Waunfawr: Y Gymdeithas Lenyddol — sgwrs a sleidiau gan

Mary Vaughan Jones. **Deiniolen:** Merched y Wawr — sgwrs gan Mrs Rhianwen Roberts, Bangor.

22 Sul. Llanberis: Amgueddfa'r Gogledd am 1.45 — cyngers Nadolig gyda Hogia'r Wyddfa.

23 Llun. Deiniolen: Y Gymdeithas Lenyddol am 7 yn Y Ganolfan — sgwrs gan Mr Geraint Lloyd Owen, Bontnewydd.

27 Gwener. Deiniolen: Plaid Cymru — Ffair Nadolig yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7 o'r gloch. Stondinau lawer ac ymweliad gan Siôn Corn. **Cwm-y-glo:** Bingo yn yr Ysgol am 7. **Waunfawr:** Clwb Chwaraeon — cyngerdd yn Y Ganolfan gyda Côr yr Eifl, Parti Lliwedd, Carys Edwards, Myra Turner ac Elin Gwilym.

## RHODDION

£5: Mr a Mrs Tommy Roberts, 9 Llainwen Isaf, Llanberis. Colin a Sionel Hilton, Llanberis. Rennell Williams, Tan y Fron, Dinorwig. Mrs Dilys Williams, 61 Pentre Helen, Deiniolen. Mrs Nan Williams, 2 Glangfynnon, Llanrug. Teulu Garnedd, Deiniolen.

£3: Teulu'r ddiweddar Katie Jones, 9 Bryntirion (gynt), Penisarwaun. Mr a Mrs G. R. Williams, Penisarwaun. Mrs L. Evans, Tegfryn, Waunfawr.

£2: Teulu y ddiweddar Mrs Jones, 2 Bro Deiniol, Deiniolen.

£1: Mrs Elinor Jones, Heatherbank, Penisarwaun.

AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD  
HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM

## FFENESTRI CELTAIDD (CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL



- ★ Gwydro Dwbl a Sengl
- ★ Gwaith Domestig a Chontract
- ★ Gwarant 10 mlynedd
- ★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim



CYMHARWCH EIN PRISIAU  
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160

Am waith

PEINTIO, ADDURNO

a mân atgyweirio oddi mewn  
neu tu allan am bris rhesymol  
cysyllter ag

**ERIC JONES**

17 BRYN TIRION

**PENISARWAUN**

Ffôn: LLANBERIS 872421

## HYSBYSEBU YN YR ECO

Os oes rhywun yn awyddus i  
hysbysebu yn yr *Eco* dylech gysylltu  
ag un o'n trefnwyr hysbysebion:-  
John Roberts, Caernarfon 5605 neu  
Iola Llywelyn Gruffydd, Waunfawr 599.



# CHWARAEON

## CYNGOR CHWARAEON ARFON

Soniais am ffurfio y cyngor uchod ychydig o rifynnau yn ôl. Erbyn hyn mae pwyllgor y Cyngor wedi cyfarfod, ac fe ddewiswyd cynrychiolwyr i wahanol adrannau y fwrdeistref. Cynrychiolydd ardal Peris yw Dafydd Arfon Jones sy'n adnabyddus i bawb yn yr ardal gyda'i gysylltiadau â Chlwb Pêl-droed Llanrug. Ef fydd y ddolen gyswllt rhwng clybiau'r ardal fydd yn ymaelodi â'r Cyngor (am y tâl rhesymol o £10).

Beth yw pwrpas y Cyngor? Yn bennaf i uno gwahanol gampau Arfon, fel y gellir anelu at wella ansawdd chwaraeon yn y fwrdeistref. Credir yn gryf bod y galw yma ar gyfer trefnu, cynorthwyo a hyfforddi. Mae un elfen bwysig iawn yma, sef bod yn gyswllt rhwng clybiau unigol â'r gwahanol gyrff — yn enwedig Cyngor Chwaraeon Cymru — sy'n dosbarthu grantiau. Mae lle i greu mai, yn y dyfodol agos, trwy gyrff fel Cyngor Chwaraeon Arfon y bydd Cyngor Chwaraeon Cymru yn rhannu eu grantiau ac nid i'r clybiau unigol fel

o'r blaen.

Ynglŷn â hyfforddi bydd cyfle gan C.Ch.A. i sefydlu cyrsiau hyfforddi yn ôl yr angen. Gellir denu, gobeithio, arbenigwyr mewn gwahanol feysydd i'r ardal — byddai hynny yn amhosibl i glwb unigol ei wneud.

Yn bersonol credaf fod sefydlu'r Cyngor yn gyfle i symud ymlaen yn natblygiad chwaraeon yn Arfon, ac o gael cefnogaeth gref y clybiau, gall llawer o fanteision ddeillio. Os am fwy o fanylion cysyllter â Dafydd neu ag ysgrifenyddes y Cyngor, sef Jennie Fletcher yn Swyddfa Arfon (Estyniad 509).

## PROFI ABLEDD YR ANABL



Hywel Evans yn derbyn Tlws y Mis.

Erbyn hyn mae Hywel Evans wedi dychwelyd i'r Waunfawr wedi ei ddyletswyddau ym Madrid fel is-reolwr tîm Prydain yn y Gemau Olympaidd Paramedical. Gemau yw'r rhain i bobl â nam meddyliol, ac fel arfer fe gynhelir eu gemau hwy ar wahân i'r gemau Olympaidd i'r rhai

a nam corfforol. Cynhaliwyd eu Olympiad hwy yn Barcelona. Yn dilyn cryn apelio taer, penderfynwyd mai yr Olympiad Atlanta mewn pedair blynedd, bydd y ddwy Olympiad yn uno. Cam pendant bwysig ymlaen! Roedd 74 o wledydd yn cystadlu, ac roedd 50 o Gymry yn nhîm Prydain o 130. Cyfrannodd y Cymry yn hael ym myd hyfforddi, gan fod nifer ohonynt, fel Hywel, yn gweithio yn y maes. Mae Hywel wedi bod yn weithgar dros yr anabl ar Gyngor Chwaraeon Cymru ers 1982.

Cynhaliwyd y gemau yn y Palais de Sport yn Madrid, ac roedd y stadiwm yn llawn gyda 12,000 o gefnogwyr trwy'r amser. Yr oedd diffiniad llawer o wledydd ar lefel anabledd yn amrywiol iawn. Yn wir, roedd rhai o wledydd De America yn derbyn tldi fel anabledd! Dyna i ni destun dadll!

Yn sicr, gallwn ymfalchio yng nghyfraniad Hywel yn y maes pwysig hwn. Cri am help sydd ganddo, a theimla fod yr Olympiad wedi rhoi cyfle i edrych ar y cystadleuwyr am eu gallu ac nid am eu hanabledd. yn wir, buasai amser enillydd y ras 1500m yn Madrid wedi ennill y fedal efydd yn Barcelona.

Gobaith mawr Hywel yw fod y gymdeithas yn gyffredinol yn gweld y gwaith o ymdopi â sialens yr anabl, a dangos y gwerthoedd a'r ymdrech y gallant ei roi i glybiau chwaraeon.

## MURPHY AR Y MARC

Gyda cyn gymaint o bêl-droed bore Sadwrn yn y cylch, mae rhywun yn anghofio bod gemau rhwng ysgolion yn dal i ffynnu. Yn ystod y mis bum yn dyfarnu gêm gwpan rhwng Ysgol Brynrefail ac Ysgol David Hughes. Cafwyd pêl-droed o safon uchel gan fechgyn Brynrefail ac roedd eu syniad o gyd-dynnu a chynrychioli'r ysgol yn amlwg. Ysgol Brynrefail enillodd 2-0, ac felly nhw fydd yn wynebu Coleg Technegol Gwynedd yn rownd gyn-derfynol cylch Gwynedd o Gwpan Ivor Tuck. Oherwydd maint yr ysgol anaml bydd Brynrefail yn cael cyfle i gael carfan gref o fechgyn yn y chweched dosbarth. Eleni gwiredddwyd hynny ac edrychir ymlaen at lwyddiant gobeithio i efelychu campau tîm Stephen Owen, Malcolm Allen a'r criw ychydig o flynyddoedd yn ôl. Seren y gêm yn y Borth oedd Simon Murphy, o'r Ceunant, ac roedd yr ergyd am ei ail gôl yn syth o Serie A ar bnawn Sull! Yr oedd ei brofiad gyda ail dîm Llanberis yng nghynghrair Sain yn amlwg. Ar yr un adeg roedd timau blynyddoedd cyntaf y ddwy ysgol yn cyfarfod yn eu cwpan hwy. Wedi clincar o gêm, 1-1 oedd y sgôr terfynol, ac edrychir ymlaen i'r ail chwarae ym Mrynrefail.

## CYMORTH GIN-TAFF



Bryn 'Taff' Williams yn cyflyno bag cymorth cyntaf i John Williams, rheolwr tîm dan 14 oed.

## CAEL CIC ALLAN O FYWYD

Mae un ysgol o feddwl yn awgrymu bod llawer o'r difron a'r fandaliaeth a achosir heddiw yn deillio o ddiffyg parch rhwng cyd-ddyn. Awgrym arall yw fod cyn gymaint o egni gan ieuenctid sydd heb gael ei losgi yn ystod y dydd. Nid yw gwylio teledu neu fideo yn llosgi egni. O roddi problemau cymdeithasol ar ben hyn,

mae'r egni yn cael ei amlygu mewn fandaliaeth.

Un gamp sy'n ceisio ymateb i'r uchod yw ysgol karate Kamakura sy'n cyfarfod yn Llanrug ar nos Fawrth ac yn Llanberis ar y Sadwrn. Arweinydd y grŵp yw Kevin Siddall sy'n wregys du (4ydd dan) yn y gamp. Yn cyd-hyffordd ag ef y mae Phil Eardley. Mae Phil Eardly yn ddiweddar wedi llwyddo i gyrraedd safon y gwregys du. Fel rhan o'r

prawf terfynol roedd yn rhaid iddo redeg pum milltir gyda'r ddwy filltir olaf yn droednoeth.

Prif amcan y clwb yn ôl Kevin yw helpu'r gymuned trwy hyfforddi plant ac oedolion i barchu eu gilydd trwy ymarfer corfforol a disgyblaeth bersonol.

Os oes rhywun â diddordeb i ymuno â'r clwb gellir cysylltu ar (0492) 660308.

## O LAN YR AFON

Bu pysgota cryn lewyrchus ar y dair afon tuag at ddiwedd y tymor. Achubwyd dipyn, felly, ar y siom o golli bron i dri mis o bysgota ar y Seiont yng nghanol y tymor. Chwi gofiwch, mae'n siŵr, am broblem yr algaie lliwgar ar Lyn Padarn ac yna'r bibell ddŵr o dan wely'r afon ger Penybont.

Bu nifer o'r aelodau yn hynod o grefftus yn bachu'r siwin, gyda nifer ohonynt yn aml-fachu. At fachyn Oscar Evans (Bethel) y denwyd y trymaf — 11 pwys braf!

Gwelwyd gwellhad aruthrol yn y nifer o eogiaid a redodd y Llyfni. Yn wir, o Lyn Tro y bachwyd y pysgodyn trymaf o holl ddŵr y gymdeithas eleni — un 19 pwys, a Noel Roberts o Rostryfan oedd y 'crefftwr' balch.

Bydd Llyn y Dywarchen yn agored tan ddiwedd mis Tachwedd ac mae nifer o stoc y ddeorfa heb eu dal, a hwythau erbyn hyn mewn cyflwr bendigedig — a blasus!

Ar nos Sadwrn, Tachwedd 5ed, bydd noson wobrwyo'r Gymdeithas yng Nglan Gwna. Dafydd Iwan a'r Band fydd yn diddori. Yn ogystal a'r adloniant, yn gynywsegid yn y pris o £7, bydd dewis o gyw iâr neu sgampi (ni fydd pysgodyn ar y fwydlen!). Roedd galw mawr am docynnau y llynedd felly gadewch i ni wybod cyn gynted ag sy'n bosibl os am sicrhau tocyn.

Y nos lau ganlynol — y 10fed — cynhelir y Cyfarfod Blynyddol. Taer erfynnir am gynulliad dda, gan fod nifer o faterion pwysig i'w trafod.

